

Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gwent

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4775A2024

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru a llywodraeth leol, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Am yr adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	6
Adroddiad manwl	
Beth yw maint yr her?	9
Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty?	16
Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd?	28
Beth arall y gellir ei wneud?	34
Atodiadau	
Atodiad 1—dulliau archwilio	37
Atodiad 2—rhesymau dros oedi cyn rhyddhau	39
Atodiad 3—perfformiad gofal brys ac argyfwng	43
Atodiad 4—arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phhecynnau gofal	48
Atodiad 5—ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio	50

Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn

- 1 Pan ystyrir bod claf yn ddigon iach yn feddygol neu'n glinigol i adael yr ysbyty (y cyfeirir ato hefyd fel ffit yn feddygol neu ffit yn glinigol) mae'n allweddol rhyddhau'r claf hwnnw'n amserol i'r lleoliad cywir ar gyfer ei anghenion parhaus. Mae symud cleifion yn amserol, yn effeithiol ac yn effeithlon allan o leoliad ysbyty aciwt yn dwyn manteision pwysig i ofal a phrofiad cleifion yn ogystal ag ar gyfer defnyddio adnoddau y GIG.
- 2 Pan fo'r broses o ryddhau yn cymryd mwy o amser nag y dylai, mae'n bosibl y bydd goblygiadau sylweddol i'r claf o ran ei adferiad, ei adsefydliad a'i annibyniaeth. Bydd achosion o oedi cyn rhyddhau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer cleifion eraill sy'n dod i mewn i'r system gofal brys ac argyfwng¹ y mae arnynt angen gwely mewn ysbyty. Mae "llif" cleifion gwael yn creu tagfeydd yn y system sy'n cyfrannu at broblemau tra hysbys megis adrannau achosion brys gorlawn ac anallu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n amserol o ofal criwiau ambiwlansys.
- 3 Yn wreiddiol roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith yn ei gynlluniau archwilio lleol yn 2021 i archwilio materion system gyfan sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Arweiniodd pandemig COVID-19 at ohirio'r gwaith hwn a'i gynnwys drachefn yng nghynlluniau archwilio 2023. Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol. Manylir ar y dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**.
- 4 Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach o waith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei chyflawni ar hyn o bryd mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yng Nghymru. Rydym hefyd yn archwilio'r trefniadau sydd ar waith i helpu i reoli'r galw am ofal brys ac argyfwng, ac i gyfeirio cleifion at y lleoliad gofal sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. Byddwn yn adrodd ar wahân ar ganfyddiadau y gwaith hwnnw yn 2024.
- 5 Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar ofal brys ac argyfwng wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Yn benodol, mae'r gwaith hwn wedi ei gynllunio i argyhoeddi'r Archwilydd Cyffredinol bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarvoudus, fel sy'n ofynnol yn ôl adrannau 17 a 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

¹ Mae gofal brys ac argyfwng yn disgrifio unrhyw ofal heb ei drefnu, brys ac argyfwng a ddarperir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r system gofal heb ei drefnu'n gymhleth gyda nifer o sefydliadau'n rhan o ddarparu gwasanaethau ac mae'n ymdrin â phobl sydd ag afiechyd aciwt, sy'n agored i niwed ac mewn gofid y mae arnynt angen cymorth brys.

- 6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau i ategu llif effeithiol allan o'r ysbyty yn Rhanbarth Gwent (y rhanbarth). Mae'r ardal yn cwmpasu:
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd)
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;
 - Cyngor Sir Fynwy;
 - Cyngor Dinas Casnewydd;
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- 7 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag argymhellion blaenorol a wnaed yn ein hadroddiad yn 2017 ar gynllunio i ryddhau cleifion. Nodir ein canfyddiadau o'r gwaith hwn mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd

Negeseuon allweddol

- 8 Yn gyffredinol, canfuom **er bod pwyslais clir ar wella llif cleifion yn y rhanbarth, fod nifer sylweddol o gleifion sy'n ffit yn feddygol yn dal mewn gwelyau ysbyty. Mae hyn yn parhau i gael sgil-ffeithiau difrifol ar lwybrau gofal eraill y GIG ac yn creu risgiau i lesiant corfforol a meddyliol cleifion. Mae angen asesu cleifion yn fwy amserol, dull llai gwrth risg o gynllunio i ryddhau cleifion a chymhwyso polisi rhyddhau cleifion yn fwy cyson. Mae heriau gweithlu a system TG yn parhau i fod yn rhwystrau allweddol y bydd angen i bartneriaid ganolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau gwerth o'r buddsoddiadau y maent wedi eu gwneud a chyflawni'r gwelliannau y maent yn cydnabod sydd eu hangen.**
- 9 Am y deuddeg mis hyd at a chan gynnwys mis Chwefror 2024, yn ystod pob mis, roedd 250 o gleifion a oedd yn ffit yn feddygol ar gyfartaledd yn ysbytai y Bwrdd Iechyd yr oedd eu rhyddhad wedi ei oedi. Cwblhau asesiadau ar y cyd a chlinigol oedd y prif achosion dros oedi cyn eu rhyddhau a chyfanswm nifer y diwrnodau gwelyau a gollwyd oherwydd oediadau cyn rhyddhau cleifion yn ystod y cyfnod hwnnw oedd 55,685 sy'n cyfateb i £27.8 miliwn o adnoddau y GIG ar sail cost gwely cyfartalog o £500. Ceir rhestr lawn o'r rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion yn **Atodiad 2**.
- 10 Mae'r effaith ganlyniadol ar lif cleifion mewn ysbytai a'r system gofal brys ac argyfwng yn sylweddol, ac mae amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a throsglwyddiadau ambiwlans yn methu â chyflawni targedau cenedlaethol. Ym mis Chwefror 2024, collwyd dros 3,000 o oriau ambiwlans oherwydd oediadau wrth drosglwyddo, ac 8.5 awr oedd yr amser aros cyfartalog yn adran achosion brys y Bwrdd Iechyd. Ceir dadansoddiad manwl o berfformiad y rhanbarth ar draws amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad brys ac argyfwng yn **Atodiad 3**.

- 11 Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at oediadau cyn rhyddhau cleifion. Mae cymhlethdod a maint y galw yn cynyddu yn unol â phoblogaeth sy'n heneiddio, ond gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn gwaethgu'r cymhlethdod hwnnw drwy fod yn wrth risg i ryddhau cleifion, sy'n cyfrannu at broblemau mewn mannau eraill yn llwybr y claf. Mae capasiti y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn her i'r rhanbarth ac mae'n effeithio ar asesiadau ar y cyd ac asesiadau clinigol, er bod arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol yn llai problemus na llawer o rannau eraill o Gymru a bod capasiti y sector gofal ar draws y rhanbarth yn bodloni'r galw yn gyffredinol. Cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd mewn cysylltiad â rhyddhau cleifion, ond nid yw'r polisi rhyddhau presennol wedi ei wreiddio, mae'r dull hyfforddi staff yn anghyson, ac ni chofnodir y broses ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion yn dda yn nodiadau achos cleifion. Mae staff sy'n rhan o'r broses rhyddhau cleifion wedi creu gwaith gweithredol ar gyfer rhannu data megis cyfarfodydd llif cleifion, ond mae rhannu data ffurfiol ac ansawdd data yn newidiol ac nid yw rhyngwynebau digidol rhwng sefydliadau yn gydnaws.
- 12 Canfuom fod mynd i'r afael â llif cleifion yn ganolog i gynlluniau strategol a gweithredol perthnasol ar draws rhanbarth Gwent ac yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae gweithio mewn partneriaeth strategol yn amlwg, gan adeiladu ar gydberthnasau cydweithredol presennol, ond mae gweithio mewn partneriaeth weithredol yn llai datblygedig. Targedir adnoddau ariannol er mwyn cefnogi llif cleifion gyda chanlyniadau cadarnhaol, er bod gallu'r partneriaid i ddarparu arian cyfatebol yn gynyddol heriol ac y gallai effaith y mentrau a ariennir fod yn fwy tryloyw. Mae goruchwyliaeth glir a chreffir ar y camau gweithredu a gymerir er mwyn gwella'r llif cleifion, er y gellid gwneud mwy i gasglu sylwadau cleifion a defnyddwyr gwasanaethau ac i oruchwyllo cydymffurfiaeth â'r polisïau rhyddhau cyfredol.
- 13 Er bod partneriaid rhanbarthol yn cydnabod yn glir y problemau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, awydd i fynd i'r afael â nhw gyda'r pwyslais cywir mewn strategaethau a chynlluniau, prosiectau effeithiol a chydberthnasau strategol da, nid yw nifer yr oediadau cyn rhyddhau ledled y rhanbarth wedi lleihau'n sylweddol. Mae angen parhau i weithredu ar draws amrywiaeth o feysydd er mwyn sicrhau'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i gleifion, eu teuluoedd, a'r system gofal brys ac argyfwng ehangach.

Argymhellion

- 14 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Bydd yr ymateb rheoli cyfun gan y cyrff statudol a gynhwysir yn yr adolygiad hwn i'r argymhellion hyn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 5** ar ôl i'r pwyllgorau perthnasol yn eu hystyried.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion

Gwella hyfforddiant a chanllawiau ar gynllunio i ryddhau cleifion

- A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol wreiddio prosesau i gyfleu canllawiau cynllunio i ryddhau cleifion i'r holl staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro, â chefnogaeth rhaglen hyfforddiant gloywi a hyfforddiant parhaus a chyflwyniad hyfforddiant ar gyfer staff newydd. Pan fo hynny'n bosibl, dylid gwneud hyn ar y cyd.
- A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddarau ei bolisi rhyddhau cleifion er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023.

Gwreiddio dull saith diwrnod o ryddhau cleifion

- A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol adolygu'r capasiti i wreiddio a chyflawni rhyddhad mewn saith diwrnod. Er bod angen rhyddhau cleifion bob dydd, nid yw'r ffyrdd presennol o weithio yn cefnogi hyn, ac mae diffyg rhyddhau ar benwythnosau yn golygu bod cleifion yn cael arhosiad estynedig yn yr ysbyty sy'n cynyddu'r risg o ddatgylfyr ac o gael haint.

Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â rhagnodi gormod o becynnau gofal yn anffurfiol

- A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau ynghylch rhagnodi pecynnau gofal er mwyn sicrhau nad oes disgwyliadau afrealistig a diangen ar gleifion mewn cysylltiad â darpariaeth gofal. Mae hyn yn enwedig o wir am gleifion hŷn y gellid eu hystyried yn fregus. Gall hyn ddadrymuso cleifion rhag bod yn annibynnol a gallai arwain at eu haildderbyn i'r ysbyty yn y dyfodol.

Adolygu parodrwydd i dderbyn risg mewn cysylltiad â rhyddhau cleifion

- A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei agwedd ddiwylliannol a'i ddull o ymdrin â risg mewn cysylltiad â rhyddhau cleifion. Dylai hyn sicrhau bod risg yn cael ei asesu ar draws llwybr cyfan y claf, fel nad yw gwelyau yn cael eu dal yn ddiangen.

Gwreiddio model Asesydd Dibynadwy

- A6 Dylai'r Bwrdd lechyd wreiddio ei ddull model Asesydd Dibynadwy a chyfleu'r dull hwn i'r holl bartneriaid. Er bod cydnabyddiaeth efallai na fydd hyn yn helpu i sicrhau pecynnau gofal neu leoliadau yn gyflymach; bydd yn sicrhau bod y capasiti i asesu cleifion pan fo angen.

Gwella'r broses o oruchwyllo polisïau a chanllawiau

- A7 Dylai'r Bwrdd lechyd fonitro'r gydymffurfiaeth â'i bolisi rhyddhau cleifion er mwyn asesu effeithiolrwydd a chysondeb yr hyn a gymhwysir, ac a yw'r canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys cadw at ei bolisi ei hun y bydd rhaglen dysgu blynyddol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion.

Gwella ansawdd a rhannu gwybodaeth

- A8 Dylai'r Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol roi ffyrdd o rannu gwybodaeth cleifion yn fwy effeithiol ar waith, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad ehangach i systemau sefydliadol ac, yn y pen draw, atebion TG ar y cyd.
- A9 Dylai'r Bwrdd lechyd wella'r drefn cadw cofnodion drwy:
- 9.1. sicrhau bod yr holl staff sy'n rhan o'r broses cynllunio i ryddhau cleifion yn deall yn llwyr bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol.
 - 9.2. sefydlu rhaglen archwilio nodiadau achos sy'n canolbwyntio ar ansawdd y cofnodion a gedwir.

Sylwadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r staff

- A10 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ganddo ddulliau ar waith i ddeall profiadau cleifion a gofalmwr yn y broses o ryddhau cleifion, yn unol â'i bolisi presennol a chymhwyso dysg.
- A11 Dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod timau gwasanaethau cymdeithasol perthnasol yn cipio profiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalmwr fel mater o drefn ac yn cymhwyso dysg.

Adroddiad manwl


Beth yw maint yr her?

- 15 Mae'r adran hon yn nodi maint yr her y mae'r rhanbarth yn ei hwynebu mewn cysylltiad ag oedi cyn rhyddhau cleifion a'r effaith ddilynol ar lif cleifion a phrofiad cleifion.
- 16 Canfuom **er bod gan y rhanbarth gyfraddau cymharol is o oediadau cyn rhyddhau cleifion, fod y rhain yn effeithio ar lif cleifion, yn enwedig yn yr adran achosion brys a mynediad cyson i gleifion at wardiau strôc. Aros am asesiad ar y cyd yw'r prif reswm am oediadau, ond mae heriau drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol.**

Oediadau cyn rhyddhau cleifion

- 17 Canfuom fod gan **y rhanbarth gyfraddau rhyddhau cymharol isel a sefydlog ar gyfer oediadau cyn rhyddhau cleifion, er bod oediadau wrth gwblhau asesiadau ar y cyd yn parhau i fod yn her.**
- 18 Mae oediadau cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty wedi bod yn broblem hirsefydlog i gyrff yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod y mater hwn wedi gwaethygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.
- 19 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi nifer yr oediadau cyn rhyddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Chwefror 2024, o'i gymharu â byrddau iechyd eraill ledled Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â chleifion a ystyrir yn ffit yn feddygol ond sy'n aros mewn gwely ysbyty 48 awr ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud eu bod yn ddigon da i adael yr ysbyty. Er bod y perfformiad ychydig yn well na chyfartaledd Cymru, mae nifer mawr o oediadau o hyd cyn rhyddhau cleifion sy'n effeithio ar y capasiti gwelyau a'r llif cleifion.

Arddangosyn 2: nifer yr oediadau cyn rhyddhau cleifion fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Ebrill 2023–Chwefror 2024)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 20 Mae'r ffordd y mesurir oediadau cyn rhyddhau cleifion wedi newid ers y pandemig. Nid adroddwyd unrhyw ddata am oediadau cyn rhyddhau cleifion yn ffurfiol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2023. Cyn y pandemig, adroddwyd oediadau cyn rhyddhau cleifion fel 'oedi wrth drosglwyddo gofal' a ddiffiniwyd fel y rhai a oedd yn parhau i ddal gwely ar ôl y dyddiad pryd y dywedwyd bod y claf yn barod i symud ymlaen i gam nesaf ei ofal. Mae hyn yn cymharu â'r dull presennol o gyfri oediadau cyn rhyddhau cleifion sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n aros mewn gwely ysbyty 48 awr ar ôl cael eu nodi fel rhai sy'n ffit yn feddygol.
- 21 Er nad yw'n gymhariaeth uniongyrchol, ym mis Chwefror 2020 adroddodd y Bwrdd Iechyd 72 o oediadau wrth drosglwyddo gofal. Sefyllfa diwedd mis Chwefror 2024 yw 240 o oediadau cyn rhyddhau cleifion sy'n cyfateb i 16.4% o gyfanswm capasiti gwelyau y Bwrdd Iechyd². Er hynny, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 17.9% (gan amrywio rhwng 13.7% a 31.3%).
- 22 Nodir y pum prif reswm dros oediadau cyn rhyddhau cleifion o'u cymharu â sefyllfa Cymru yn **Arddangosyn 3**, a'r rheswm mwyaf cyffredin yw aros am asesiad ar y

² Yn seiliedig ar ddata am y gwelyau cyffredinol ac aciwt a oedd ar gael ym mis Gorffennaf 2023, gwefan StatsCymru (<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Activity/NHS-Beds/nhsbeds-by-organisation-site>)

cyd (rhwng ieched a gofal cymdeithasol). Ceir rhestr lawn o'r rhesymau dros oediadau yn y Bwrdd Iechyd, a fesul awdurdod lleol yn **Atodiad 2**.

Arddangosyn 3: y 5 prif reswm dros oediadau cyn rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd o'u cymharu â sefyllfa Cymru (Chwefror 2024)

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd Cymru
Aros am asesiad ar y cyd	14.2	9.0
Aros i gwblhau asesiad clinigol (nyrsio/ gweithiwr proffesiynol perthynol i ieched/ meddygol / fferylliaeth)	9.6	10.3
Aros am becyn gofal ailalluogi	6.3	3.0
Aros i reolwr cartref gofal preswyl i ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl)	6.3	2.5
Aros i ddechrau pecyn gofal cartref newydd	5.8	8.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 23

O'i dadansoddi fesul awdurdod lleol, mae cyfradd yr oediadau cyn rhyddhau cleifion fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth yn is yn gyffredinol o'i chymharu â sefyllfa Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys Sir Fynwy lle bu'r gyfradd yn uwch o bryd i'w gilydd na sefyllfa Cymru. Aros am asesiad ar y cyd yw'r rheswm uchaf dros oedi yn Sir Fynwy a Chasnewydd. Aros am asesiadau clinigol yw'r rheswm uchaf dros oedi ym Mlaenau Gwent a Thorfaen. Aros am ymweliad ac asesiad rheolwr cartref gofal preswyl yw'r rheswm uchaf dros oedi yng Nghaerffili.
- 24

Noda **Arddangosyn 3** fod oediadau cyn rhyddhau cleifion yn ganlyniad i heriau ar draws y system ieched a gofal cymdeithasol, ac na ellir eu priodoli i un sector yn llwyr. Er mai aros am asesiad ar y cyd yw'r rheswm uchaf dros oedi yn y rhanbarth, aros i gwblhau asesiad clinigol yw'r rheswm uchaf namyn un, ac aros am wasanaeth ailalluogi ac oediadau cartrefi gofal sydd nesaf. Bydd angen i unrhyw gamau sy'n mynd i'r afael ag oediadau cyn rhyddhau cleifion mewn un maes ystyried yr effaith ar feysydd eraill sy'n peri arosiadau i gleifion.
- 25

Ar sail data a adroddwyd ym mis Chwefror 2024, roedd cyfanswm y cleifion yr oedwyd cyn eu rhyddhau yn cyfrif am 5,211 o ddiwrnodau gwelyau. Ar sail cost nodweddiadol am ddiwrnod gwely³, mae hyn yn cyfateb i gostau o oddeutu £2.6 miliwn am y mis, ac effaith blwyddyn gron o ychydig o dan £30.43 miliwn. O ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, mae hyn yn swm

³ Ar sail £500 fesul diwrnod gwely fel y nodir yn [Briefing: Minister for Finance and Local Government statement on the 2023–24 financial position](#) Confederasiwn y GIG

sylweddol o adnoddau GIG na ddefnyddir cystal â phosibl ac y dylid eu defnyddio mewn ffyrdd eraill i fodloni galw arall yn y system.

Effaith ar lif cleifion

- 26 Canfuom fod **oediadau cyn rhyddhau cleifion yn cael effaith ar lif cleifion, yn enwedig mewn cysylltiad â pherfformiad adran achosion brys y Bwrdd Iechyd.**
- 27 Mae oediadau cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn arwain at ganlyniadau o ran llif cleifion ac yn benodol y gallu i gleifion gael mynediad at wasanaethau pan fydd eu hangen arnynt. Mae gwelyau a ddefnyddir gan gleifion nad ydynt eu hangen mwyach yn golygu nad ydynt ar gael i'r rhai sydd eu hangen gan arwain, er enghraifft, at arosiadau hirach mewn adrannau achosion brys. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar allu criwiau ambiwlans i drosglwyddo cleifion ac ymateb i alwadau 999 yn y gymuned.
- 28 Mae **Atodiad 3** yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad gofal brys ac argyfwng o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022. Yn gryno:
- er bod canran y galwadau coch am ambiwlans a ymatebodd o fewn 8 munud wedi bod yn well na sefyllfa Cymru yn gyson, nid yw wedi cyflawni'r targed cenedlaethol o 65% ers mis Gorffennaf 2020 (**Arddangosyn 18**);
 - mae'r amser ymateb oren canolrifol yn hwy na'r targed cenedlaethol o 20 munud ond yn gyffredinol mae yn unol â chyfartaledd Cymru, gyda pherfformiad o 81 munud ym mis Chwefror 2024 (**Arddangosyn 19**);
 - mae canran y trosglwyddiadau ambiwlans o fewn 15 munud yn adran achosion brys mawr y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru, sef oddeutu 21%, sy'n llawer is na'r targed cenedlaethol o 100% (**Arddangosyn 20**);
 - mae canran y trosglwyddiadau ambiwlans sy'n cymryd dros awr yn gymharol sefydlog ar oddeutu 40%, ac yn is na chyfartaledd Cymru, o'i chymharu â tharged cenedlaethol o sero⁴ (**Arddangosyn 21**);
 - mae cyfanswm yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysiad i drosglwyddo dros 15 munud yn is na chyfartaledd Cymru, gan amrywio rhwng 2,700 a 4,500 awr y mis (**Arddangosyn 22**);
 - pan fo'r claf yn yr adran achosion brys, mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd a brysennu yn cyd-fynd â sefyllfa Cymru yn gyffredinol, ar 21 munud (**Arddangosyn 23**);

⁴ Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y targed i beidio â chymryd mwy nag awr i drosglwyddo cleifion fel metrig ychwanegol o fewn fframwaith cynllunio y GIG yn 2023/2024 yn rhan o'r gwaith i geisio lleihau'r duedd gynyddol o golli oriau

- mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd a chael asesiad gan uwch-wneuthurwr penderfyniadau clinigol yn uwch na chyfartaledd Cymru ac, ers mis Mai 2023, dyma'r uchaf yng Nghymru gan amrywio rhwng dwy ac ychydig dros dair awr (**Arddangosyn 24**);
- mae canran y cleifion a welwyd o fewn pedair awr mewn adran achosion brys mawr yn is na chyfartaledd Cymru a'r isaf namyn un yng Nghymru, o'i chymharu â'r targed cenedlaethol o 95% (**Arddangosyn 25**);
- mae canran y cleifion sy'n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys mawr hefyd yn is na sefyllfa Cymru a'r isaf namyn un yng Nghymru (**Arddangosyn 26**); ac
- mae cyfran y diwrnodau gwelyau a gronnir gan bobl sy'n aros yn hwy nag 21 diwrnod wedi bod yn well na chyfartaledd Cymru (**Arddangosyn 27**).

- 29 Ar sail ein dadansoddiad o ddata y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r holl gleifion meddygaeth brys a ryddhawyd o'r ysbyty ym mis Hydref 2022, canfuom mai 44 diwrnod oedd y cyfanswm arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion a oedd yn aros yn hwy nag 21 diwrnod yn y safleoedd aciwt (o'i gymharu â 56 diwrnod ledled Cymru). Roedd hyn yn amrywio ar draws y tri safle aciwt, a 31 diwrnod oedd y cyfanswm arhosiad cyfartalog yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, o'i gymharu â 47 diwrnod yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Y cyfanswm arhosiad cyfartalog yn Ysbyty Nevill Hall oedd 46 diwrnod. Mae hyn yn dangos bod dull y rhanbarthau o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn cael effeithiau ffafriol ar hyd arhosiad claf o'i gymharu â chyfartaledd Cymru am y cyfnod hwn.
- 30 Mae cyfanswm capasiti gwelyau y Bwrdd Iechyd wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda 1,793 o welyau ar gael yn 2022–23, ac ychydig yn llai na 40% o'r rhain wedi eu dyrannu ar gyfer meddygaeth aciwt (668). Cyfradd defnydd y gwelyau meddygaeth aciwt oedd 89.2%, o'i chymharu â'r lefel orau bosibl o 85%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o bedwar bwrdd iechyd sydd â gwelyau ysbyty cymunedol a reolir gan feddygon teulu. Mae'r gwelyau hyn yn darparu cyfleusterau cam-i-lawr ar gyfer cleifion nad oes angen gofal aciwt arnynt mwyach. Mae nifer y gwelyau hyn wedi aros yn sefydlog ar oddeutu 30 ers 2010–11, ond mae'r lefelau defnyddio gwelyau wedi bod yn uchel ar 99%.
- 31 Mae pwysau o ran nifer y gwelyau sydd ar gael oherwydd oediadau cyn rhyddhau cleifion yn golygu nad yw byrddau iechyd bob amser yn gallu sicrhau bod cleifion yn cael eu rhoi ar y wardiau gorau ar gyfer eu hanghenion clinigol. Er enghraifft, bydd byrddau iechyd yn arfer dal gwelyau gwag ar unedau strôc er mwyn sicrhau bod cleifion strôc yn cael mynediad cyflym ac uniongyrchol, gan eu galluogi i gael mynediad at arbenigwyr ac offer strôc.
- 32 Mae byrddau iechyd wedi profi trafferthion cynyddol wrth dderbyn cleifion strôc i ward strôc oherwydd bod problemau gyda'r llif cleifion a'r gwelyau sydd ar gael yn golygu bod angen y gwelyau hyn ar gyfer cleifion nad ydynt yn cael strôc. Roedd y perfformiad yn gyfnewidiol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023, ac amrywiodd

canran y cleifion strôc yr oedd ganddynt fynediad uniongyrchol at ward strôc o fewn pedair awr rhwng 5.9% ar ei hisaf a 31% ar ei uchaf.

- 33 Mae llif cleifion gwael hefyd yn effeithio ar ofal wedi ei drefnu (neu wedi ei gynllunio) yn aml, gan fod cleifion a'u gweithredoedd wedi eu trefnu yn cael eu canslo fwyfwy oherwydd nad oes gwelyau digonol ar gael. Yn ystod 2022–2023, cafodd 161 o dderbyniadau gofal wedi eu cynllunio eu canslo oherwydd nad oedd gwely ward ar gael yn y Bwrdd Iechyd, ac roedd hanner y rheini yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, a mis Chwefror 2023. O ran cyfnod 2023–24 hyd at a chan gynnwys mis Chwefror 2024, dim ond 42 o dderbyniadau gofal wedi eu cynllunio a gafodd eu canslo. Er bod hyn yn is na lefelau rhai byrddau iechyd eraill, mae'r cansladau hyn yn golygu profiad gwael i gleifion ac mae risg y bydd cyflyrau cleifion gofal wedi eu cynllunio yn gwaethygu ymhellach wrth iddynt aros i'w triniaeth gael ei haildrefnu.


Diwallu anghenion cleifion

- 34 Canfuom fod **y rhanbarth yn llwyddo i osgoi defnyddio lleoliadau cartref gofal heb eu cynllunio tymor byr anaddas i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae angen dull amlddisgyblaethol cryfach o gynllunio i ryddhau cleifion er mwyn cysoni safbwyntiau gwahanol ar anghenion cleifion ac osgoi oediadau diangen wrth ryddhau cleifion.**
- 35 Gall y pwysau i ryddhau cleifion a'r diffyg dewisiadau gofal sydd ar gael arwain at gleifion yn cael eu rhyddhau i leoliadau nad ydynt bob amser y rhai mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, gan gynnwys:
- cael eu rhyddhau adref cyn bod pecyn gofal priodol ar waith;
 - cael eu rhyddhau i gartref gofal preswyl pan allent fod wedi mynd adref â phecyn cymorth;
 - cael eu rhyddhau i gartref gofal preswyl dros dro er i aros nes bod lleoliad tymor hwy ar gael;
 - cael eu rhyddhau i wely ysbyty cymunedol i aros nes bod pecyn gofal ar gael;
 - cael eu rhyddhau i leoliad sy'n bell oddi wrth deulu a ffrindiau.
- 36 Gall cleifion yr oedir cyn eu rhyddhau o'r ysbyty ddatgyflyru, bod mewn mwy o berygl o brofi anaf o ganlyniad i gwmp neu ddal haint nosocomiaidd a all waethygu eu hanghenion gofal, estyn eu harhosiad yn yr ysbyty a'u gwneud yn fwy agored i gael eu haildderbyn i'r ysbyty ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- 37 Yn y rhanbarth, canfuom fod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryddhau pobl yn gyflym, ond nad yw'r capasiti cyffredinol a ffyrdd ymarferol o weithio yn cefnogi hyn bob amser. Clywsom, er y disgwylir i'r system rhyddhau cleifion o'r ysbyty fod ar waith saith diwrnod yr wythnos, a bod angen iddi wneud

hyn, yn anaml iawn y bydd cleifion yn cael eu rhyddhau ar benwythnos, ac mae hyn yn estyn arhosiad y claf yn yr ysbyty.

- 38 Mae staff o bob rhan o'r rhanbarth yn cydnabod yr her wrth gaffael cymorth addas i gleifion megis gofal cartref neu leoliad cartref gofal, ond rhwystrir hyn weithiau gan uwch-glinigwyr sy'n rhagnodi gormod i ddiwallu anghenion gofal claf yn y dyfodol. Clywsom sut mae rhai cleifion a theuluoedd yn amharod i ddychwelyd adref oni bai bod lefel y gofal y mae uwch-glinigwyr wedi dweud sydd ei hangen arnynt ar waith, er nad yw gweithwyr cymdeithasol wedi asesu bod angen y lefel honno o ofal ar y claf. Clywsom hefyd sut na chafodd rhai cleifion eu rhyddhau adref er eu bod yn byw'n annibynnol cyn cael eu derbyn i'r ysbyty a ddim yn teimlo bod angen unrhyw fath o becyn gofal arnynt. Mae hyn yn enwedig o wir am gleifion hŷn y gellid eu hystyried yn fregus. Gall hyn ddadrymuso cleifion rhag bod yn annibynnol a gallai arwain at eu haillderbyn i'r ysbyty yn y dyfodol. O ganlyniad, mae trafodaethau amlddisgyblaethol da am anghenion cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, sy'n ceisio cynnal eu hannibyniaeth gan leihau hefyd y risgiau o'u haillderbyn i'r ysbyty yn allweddol, yn enwedig ar gyfer mynd i'r afael â gwrth risg wrth ryddhau cleifion.
- 39 Dylid cyfyngu ar y defnydd o lety cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio fel y gall cleifion ei ddefnyddio fel trosglwyddiad i drefniant mwy cynaliadwy yn hytrach na lleoliad hirdymor. Noda **Arddangosyn 4** i ba raddau y mae llety cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio yn cael ei ddefnyddio ledled y rhanbarth. Ac eithrio Caerffili, ers mis Gorffennaf 2023 mae'r rhanbarth wedi cael rhai o'r niferoedd isaf o oedolion fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn llety cartrefi gofal tymor byr heb ei gynllunio a llawer llai na chyfartaledd Cymru. Mae'r data'n dangos yn gyffredinol nad yw'r rhanbarth yn symud cleifion i lety tymor byr yn amhriodol, er bod y sefyllfa yng Nghaerffili yn haeddu rhywfaint o sylw.

Arddangosyn 4: nifer yr oedolion sy'n aros 3+ mis mewn cartref gofal heb ddyddiad gorffen sydd wedi ei gynllunio, fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Gorffennaf 2023–Chwefror 2024)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty?

- 40 Mae'r adran hon yn nodi'r materion sy'n effeithio ar y broses o gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol a llif amserol cleifion allan o'r ysbyty ledled y rhanbarth.
- 41 Canfuom fod **cymhlethdod cynyddol galw cleifion ynghyd â chapasiti y gweithlu cyffredinol wedi cyfyngu capasiti y rhanbarthau i wreiddio ei bolisi ryddhau cleifion ymhlith partneriaid a rhannu gwybodaeth drwy gronfeydd data cydnaws.**

Maint a chymhlethdod y galw

- 42 Canfuom fod **cymhlethdod a maint y galw yn cynyddu yn unol â phoblogaeth sy'n heneiddio, ond y gallai'r Bwrdd lechyd fod yn gwaethygu'r cymhlethdod hwnnw drwy fod yn wrth risg i ryddhau cleifion, sy'n cyfrannu at broblemau mewn mannau eraill yn llwybr y claf.**
- 43 Ledled rhanbarth Gwent, rhagwelir cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a hŷn dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd oddeutu 1 o bob 4 o bobl yn 65 oed neu'n hŷn, o'u

cymharu ag 1 o bob 5 ar hyn o bryd a disgwylir cynnydd o 147% yn y rhai sy'n 85 oed a hŷn erbyn 2036⁵. Wrth i bobl fyw yn hirach, mae cynnydd cydberthynol yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog ac anghenion iechyd cymhleth ac felly bydd angen iddynt ddibynnu ar wasanaethau iechyd a gofal am gymorth.

- 44 Dywedodd y rhai y siaradom â nhw yn ystod yr adolygiad hwn wrthym am gynydd y maent yn ei weld yn y galw, yn enwedig o ran y galw mwy cymhleth, craffter uwch. Dywedwyd wrthym yn aml fod cleifion yn dod i mewn gydag un broblem, ond y gall profion arferol ddatgelu'n gyflym sawl cyflwr arall y mae angen eu trin a'u rheoli, a fydd yn nodweddiadol yn gofyn am waith cynllunio i ryddhau mwy cymhleth.
- 45 Gwaethygodd COVID-19 y cynnydd hwn mewn galw cymhleth. Yn ystod y pandemig, gostyngodd y galw am adrannau achosion brys yn gyflym. Hefyd, darparodd teuluoedd ofal a chymorth ychwanegol i osgoi eu hanwyliaid rhag cael eu derbyn i'r ysbyty neu ofal hirdymor rhag ofn y byddant yn cael COVID-19. Dywedwyd wrthym wrth i'r pandemig leddfu, fod y galw wedi dechrau cyflwyno drwy'r adrannau achosion brys a oedd yn llawer mwy cymhleth nag o'r blaen oherwydd bod cyflwr pobl wedi gwaethygu gartref. I gydnabod yr heriau sy'n ymwneud â'r cymhlethdod cynyddol yn y galw, mae adrannau achosion brys wedi aros ar lefelau uwchgyfeirio uchel ers y pandemig.
- 46 Clywsom hefyd sut y mae rhai cartrefi gofal preifat yn amharod i dderbyn rhai cleifion yn ôl ar ôl arhosiad ysbyty os yw eu hanghenion wedi mynd yn fwy cymhleth a'i bod felly'n anodd i'r cartref gofal eu rheoli'n ddiogel.
- 47 Dywedwyd wrthym fod y gwrth risg yn y broses o ryddhau cleifion y cyfeirir ati yn adran flaenorol yr adroddiad hwn yn cyfrannu at swm a chymhlethdod y galw. Gall cadw cleifion (yn enwedig rhai hŷn) yn yr ysbyty nes bod ganddynt becyn gofal sydd wedi ei drefnu arwain at ddatgyflyru pellach a chynyddu cymhlethdod yr angen pan fo pecynnau gofal ar gael, gan ddefnyddio gwely y gallai fod ei angen ar gyfer claf sy'n fwy sâl mewn mannau eraill o'r system.
- 48 Mae angen ystyried y risg o ryddhau claf, ochr yn ochr â'r risg ehangach o gyfrannu at gymhlethdod a maint y galw yn fwy cyffredinol.

Capasiti y gweithlu

- 49 Canfuom fod **capasiti y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn her i'r rhanbarth a'i fod yn effeithio ar asesiadau ar y cyd ac asesiadau clinigol, er bod arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol yn llai problemus na llawer o rannau eraill o Gymru.**
- 50 Mae capasiti mwy a mwy o staff sy'n rhan o'r broses cynllunio i ryddhau cleifion yn cael ei estyn oherwydd ffactorau fel cyfraddau swyddi gwag a chyfraddau

⁵ Demograffeg—sut olwg sydd ar “Gwent”?

absenoldeb heb ei gynllunio sy'n uchel. Mae llai o staff naill ai'n arwain at ddibyniaeth ar staff asiantaeth neu at lai o staff parhaol yn ceisio rheoli cleifion sy'n fwyfwy cymhleth a threfnu'r gofal parhaus sydd ei angen arnynt fel y gellir eu rhyddhau. Mae defnydd uchel o staff asiantaeth yn cael effeithiau anochel ar barhad yn y gweithlu ac yn peri'r risg o gael staff dros dro nad ydynt yn gyfarwydd â phrotocolau a phrosesau.

- 51
- Ym mis Mawrth 2024, adroddodd y Bwrdd Iechyd mai 4.8%, o gyfanswm ei sefydliad, oedd canran y swyddi gwag, gyda swyddi gwag nyrsio a bydwreigiaeth yn 6.9% a swyddi gwag meddygol yn 15.6%. Mae swyddi gwag nyrsio a bydwreigiaeth yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru, er bod swyddi gwag meddygol yn llawer uwch (10.3% yw cyfartaledd Cymru). Roedd y gyfradd absenoldeb heb ei chynllunio yn 7.3% ar gyfer staff nyrsio a bydwreigiaeth, ac yn 8.7% ar gyfer cynorthwyr gofal iechyd a gweithwyr cymorth. Unwaith eto, maent yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru. Roedd y gyfradd ar gyfer staff meddygol, 1.2%, yn llawer is.
- 52
- Ym mis Mehefin 2023, roedd cynghorau Gwent yn adrodd rhwng 4%–15% o swyddi gwag mewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, ac yng Nghasnewydd yr oedd y gyfradd uchaf o swyddi gwag, ac yng Nghaerffili yr oedd yr isaf⁶. Ym mis Chwefror 2024, roedd y gyfradd absenoldeb heb ei gynllunio mewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn amrywio rhwng 6% a 10%, fel y dangosir yn **Arddangosyn 5**.

Arddangosyn 5: canran yr absenoldeb heb ei gynllunio mewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion (Chwefror 2024)

Awdurdod lleol	Absenoldeb heb ei gynllunio
Blaenau Gwent	9
Caerffili	10
Sir Fynwy	6
Casnewydd	8
Torfaen	7
Cyfartaledd Cymru	7.9

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 53
- Mae Casnewydd wedi profi cyfraddau uwch o absenoldebau a swyddi gwag heb eu cynllunio o'i gymharu â sefyllfa Cymru, ac roedd gan yr awdurdod lleol

⁶ Caerffili 4%, Sir Fynwy 6%, Blaenau Gwent 8%, Torfaen 13% a Chasnewydd 15%. Nid oes unrhyw ddata ar gael ers mis Mehefin 2023.

gyfraddau swyddi gwag llawer uwch yn gynharach yn 2023. Mae'r awdurdodau lleol eraill wedi cael cyfraddau uwch o swyddi gwag, ond cyfraddau is o absenoldebau heb eu cynllunio, neu i'r gwrthwyneb. Mae'r defnydd o staff asiantaeth ar draws y pum awdurdod lleol yn isel ar y cyfan (o dan 2%), ac nid yw Casnewydd na Thorfaen yn defnyddio staff asiantaeth o gwbl.

- 54 Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn cydnabod materion gweithlu, ac maent yn flaenoriaeth ar gyfer y cynllun gweithredu thema craidd yn y Cynllun Ardal Ranbarthol. Mae mentrau a gefnogir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r capasiti ar draws y sector gofal, gan gynnwys mentrau micro-ofal hunangyflogedig ac ymgyrchoedd recriwtio. Mae Bwrdd Gweithlu rhanbarthol yn datblygu, yn monitro ac yn cydlynu'r cynllun gweithlu. Mae camau gweithredu, perchnogion, cerrig milltir a mesurau cynnydd i gyd yn ymddangos yn y flaenoriaeth gyda phwyslais clir ar ba wahaniaeth y bydd pob cam gweithredu yn ei wneud. Mae Adrodd Diwedd y Flwyddyn, Ch4 2023–24, am Fwrdd Gweithlu Gwent yn cydnabod llwyddiant megis hyfforddiant integredig ar gyfer yr holl bartneriaid gofal ledled y pum awdurdod lleol a datblygu Grŵp Diwylliant Adferol. Mae'r grŵp hwn yn annog rhannu arferion gorau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent a gwella amgylcheddau gwaith a llesiant i gyflogeion. Mae Bwrdd y Gweithlu hefyd yn cydnabod rhai heriau megis cyflymder cyflawni ar draws rhai o'i amcanion oherwydd pwysau sy'n cystadlu a'r angen i wella sianeli cyfathrebu ar draws partneriaid.
- 55 Gall cyfyngiadau capasiti y gweithlu effeithio'n andwyol ar y broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Er enghraifft, mae pwysau ar niferoedd nyrsio mewn ward yn golygu y cyfyngir ar yr amser sydd ar gael ar gyfer cynllunio i ryddhau yn briodol, y gellir ei waethygu drwy ddefnyddio staff asiantaeth sy'n llai cyfarwydd â phrosesau rhyddhau cleifion. Yn yr un modd, gall pwysau ar gapasiti gweithwyr cymdeithasol effeithio ar ei allu i gwblhau asesiadau ar glaf mewn modd amserol. Fel yr amlygir yn **Arddangosyn 3**, oediadau mewn asesiadau ar y cyd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol ac asesiadau clinigol gan staff ysbytai yw rhai o'r prif resymau dros oedi wrth ryddhau cleifion ledled y rhanbarth, ac maent yn cyfrif am 23.8% o'r holl oediadau. Mae oediadau wrth aros am ddyraniadau gweithwyr gofal cymdeithasol ac asesiadau gofal cymdeithasol yn cyfrif am 7.5% arall o'r holl oediadau ym mis Chwefror 2024, er bod hyn yn cymharu'n llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 24.2%.
- 56 Noda **Arddangosyn 6** y graddau y gall gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ar draws y pum awdurdod lleol fodloni'r galw am asesiad. Mae nifer y cleifion sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol yn yr ysbyty yn cyfrif am gyfran fach o gyfanswm y bobl sy'n aros am asesiad.

Arddangosyn 6: nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd a’r nifer sy’n disgwyl i gael eu cwblhau fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Chwefror 2024)

Awdurdod lleol	Asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd	Oedolion sy’n aros am asesiad gofal cymdeithasol	% o’r rhai sy’n aros am asesiad gofal cymdeithasol sydd yn yr ysbyty
Blaenau Gwent	158	44	0.0%
Caerffili	453	148	2.3%
Sir Fynwy	277	181	2.1%
Casnewydd	155	84	4.0%
Torfaen	310	84	3.2%
Cyfartaledd Cymru	250	125	8.7%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 57

Mae rhestrau aros am asesiadau gofal cymdeithasol yn uwch na chyfartaledd Cymru yng Nghaerffili a Sir Fynwy, er bod nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd yng Nghaerffili yr uchaf namyn un yng Nghymru. Gallai hyn fod oherwydd bod eu staff gwaith cymdeithasol yn rhan o Dîm Eiddilwch Integredig yn y Bwrdd lechyd a'u bod yn mynd ati i geisio a rheoli achosion pobl er mwyn cyflymu'r broses o asesu a rhyddhau cleifion o'r adrannau achosion brys.
- 58

Ym Mlaenau Gwent a Chasnewydd, mae nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod pob un o'r pum awdurdod lleol yn blaenoriaethu asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer cleifion sydd yn yr ysbyty, ac mai cyfran isel o'r rheiny sy'n aros am asesiad yn yr ysbyty.
- 59

Er mwyn cefnogi'r dasg o gwblhau asesiadau, cyflwynodd y partneriaid y Model Asesydd Dibynadwy⁷ yn ystod y pandemig. Siaradodd staff y Bwrdd lechyd yn gadarnhaol iawn am y model ond roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch a oedd y model yn dal i weithredu. Roedd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cydnabod y manteision, er bod rhai yn nodi nad yw'r model yn helpu i sicrhau pecynnau gofal na lleoliadau yn gyflymach. Cydnabuwyd hefyd y byddai safoni ffurflenni ar draws pob awdurdod lleol yn helpu i wella'r broses.

⁷ Swyddogaeth benodol yw Asesydd Dibynadwy, gyda'r sgiliau a'r cymhwysedd cysylltiedig, i gynnal asesiad cymesur ar ran sefydliad arall i gefnogi'r broses o ryddhau rhywun o'r ysbyty i'w gam nesaf ar ei daith gofal.

Capasiti y sector gofal

- 60 Canfuom fod **capasiti y sector gofal ledled y rhanbarth yn bodloni'r galw yn gyffredinol, a bod mwy o bobl yn cael eu cefnogi gartref nag mewn llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru.**
- 61 Gall argaeledd pecynnau gofal cartref a llety cartref gofal preswyl hirdymor fod yn achosion allweddol o oediadau ledled Cymru wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Ledled y rhanbarth, ychydig iawn o oediadau a adroddwyd gan roi aros am ofal preswyl sydd ar gael yn rheswm dros yr oediad hwnnw, er bod aros am becynnau gofal cartref wedi cyfrif am 5.8% o'r holl oediadau ym mis Chwefror 2024. Roedd disgwyl am wasanaeth ailalluogi yn cyfrif am 6.3% arall. Noda **Arddangosyn 7** nifer yr oedolion sy'n derbyn cymorth yn y sector gofal ac i ba raddau y disgwylir am ddarpariaeth. Noda **Atodiad 4** berfformiad rhestr aros am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal ers mis Tachwedd 2022.

Arddangosyn 7: nifer yr oedolion sy'n derbyn (ac yn aros am) becynnau gofal a lleoliadau fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Chwefror 2024)

Awdurdod lleol	Derbyn gofal cartref (arosiadau)	Derbyn gwasanaeth ailalluogi (arosiadau)	Derbyn llety cartref gofal hirdymor (arosiadau)
Blaenau Gwent	663 (5)	41 (9)	408 (2)
Caerffili	480 (11)	10 (3)	515 (12)
Sir Fynwy	789 (37)	41 (20)	412 (-)
Casnewydd	677 (2)	40 (31)	494 (13)
Torfaen	762 (3)	57 (11)	409 (0)
Cyfartaledd Cymru	665 (34)	46 (9)	536 (11)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 62 Roedd tri o'r awdurdodau lleol (Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) yn darparu pecynnau gofal cartref i fwy o bobl na chyfartaledd Cymru, ac roedd Blaenau Gwent yn unol â chyfartaledd Cymru. Ac eithrio Sir Fynwy, mae gan bob awdurdod lleol arall lawer llai o bobl sy'n aros am becyn gofal cartref o'u cymharu â chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn awgrymu, yn gyffredinol, ei bod yn ymddangos bod y rhanbarth yn ymdopi'n well nag eraill o ran darparu pecynnau gofal cartref er gwaethaf y pwysau y mae'n ei wynebu. Adlewyrchir hyn hefyd yn **Arddangosyn 8**

⁸ Gan gynnwys gofal cartref a ddarperir ac a gomisiynir gan awdurdodau lleol.
⁹ Gan gynnwys gwasanaeth ailalluogi a ddarperir gan awdurdodau lleol.
¹⁰ Gan gynnwys llety cartref gofal hirdymor a gomisiynir gan awdurdodau lleol.

sy'n nodi'r graddau y mae oriau cartref heb eu llenwi. Ac eithrio Sir Fynwy, mae nifer yr oriau sy'n aros i gael eu llenwi yn llawer is na chyfartaledd Cymru ac ymhlith rhai o'r isaf yng Nghymru.

Arddangosyn 8: oriau cartref heb eu llenwi ac oriau cyfartalog o ofal cartref a ddarperir fesul oedolyn, fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Chwefror 2024)

Blaenau Gwent	75	14.6
Caerffili	86	13.0
Sir Fynwy	372	14.7
Casnewydd	13	15.0
Torfaen	14	14.6
Cyfartaledd Cymru	353	13.2

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 63
- Ac eithrio Caerffili, mae'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn darparu rhai o'r oriau o ofal cartref cyfartalog uchaf fesul oedolyn fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth ledled Cymru (**Arddangosyn 8**). Gallai'r nifer uchel o bobl yn Sir Fynwy sy'n derbyn gofal cartref a'r nifer uchel o oriau sy'n aros i gael eu llenwi fod yn gysylltiedig â'i phoblogaeth sy'n fwyfwy hen a'i hanghenion mwy cymhleth. Gall hefyd awgrymu bod cyfran fwy o bobl yn Sir Fynwy yn cael eu rhyddhau adref â phe cyn gofal cartref fel dewis cyntaf neu o bosibl y gofynnir am ofal cartref ar lefelau uwch nag sydd ei angen ar gleifion.

64

Hefyd, ac eithrio Caerffili, mae awdurdodau lleol y rhanbarth yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru o ran darparu gwasanaethau ailalluogi, ac mae Torfaen yn uwch na'r cyfartaledd. Rhoddodd Cynllun Gaeaf Aneurin Bevan 2021–2022 gynllun ailalluogi ar waith a recriwtiodd bum gweithiwr cymorth ailalluogi fesul awdurdod lleol i helpu i osgoi derbyn cleifion ac i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gyflymach. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n aros am wasanaethau ailalluogi yn uchel yn Sir Fynwy ac yng Nghasnewydd. Mae'r rhain wedi amrywio'n sylweddol ers mis Tachwedd 2022, er bod nifer y bobl sy'n aros am wasanaeth ailalluogi yn Sir Fynwy wedi aros yn uwch na chyfartaledd Cymru yn gyson. Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig Sir Fynwy 2023–2026 yn cydnabod 'Ailalluogi' fel un o'i themâu yn ffrwd waith 'Croeso a Rhyddhau o Ysbytai' gyda'r nod o leihau anghenion heb ei ddiwallu a lleihau anghenion y rhai hynny yn y dyfodol yn dilyn cymorth ailalluogi. Mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2022–2023 yn cydnabod bod angen gwneud mwy i wella ei gefnogaeth ailalluogi ac mae Cynllun

Cadernid y Gaeaf 2023–24 Aneurin Bevan yn dal i nodi bod ailalluogi yn her capasiti sylweddol sy'n arwain at oedi wrth ryddhau.

- 65 O fis Chwefror 2024, darparodd awdurdodau lleol Gwent rai o'r niferoedd isaf o lety gofal hirdymor fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth. Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy sydd â'r gyfradd isaf namyn un, y drydedd, a'r bedwaredd gyfradd isaf yng Nghymru. Er bod Caerffili a Chasnewydd yn darparu ychydig yn llai na'r llety gofal hirdymor cyfartalog, mae arosiadau ychydig yn hwy na chyfartaledd Cymru. Ychydig iawn o bobl, os oes, sy'n aros ym Mlaenau Gwent a Thorfaen, sy'n awgrymu bod lefel y llety gofal hirdymor yn y siroedd hynny yn bodloni'r galw.


Y broses ryddhau

- 66 Canfuom fod **cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd mewn cysylltiad â rhyddhau gweithredol, ond nad yw'r polisi rhyddhau presennol wedi ei wreiddio, fod hyfforddiant anghyson, ac nad yw'r broses cynllunio i ryddhau cleifion wedi ei dogfennu'n dda mewn nodiadau achos.**
- 67 Mae cynllunio da i ryddhau yn dibynnu ar gyfathrebu a chydlynu da ar draws gwahanol grwpiau proffesiynol, gan ystyried rhyddhau cyn gynted ag y cyflwynir claf i wasanaethau. Mae cynllunio i ryddhau yn dda hefyd yn cael ei hwyluso drwy fod â phrosesau sydd wedi eu dogfennu'n glir a rennir â'r holl staff dan sylw er mwyn hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gwahanol swyddogaethau yn y broses ryddhau.
- 68 Cynhelir cyfarfodydd gweithredol rheolaidd i drafod rhyddhau cleifion fel rowndiau ward amlddisgyblaethol a hyd yr arosiadau. Daeth llawer o bobl i'r rhai a arsylwyd gennym ac roeddent yn gyfle defnyddiol i drafod cleifion ac i aseinio gweithredoedd sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion. Fodd bynnag, ymddengys nad oedd amllder y cyfarfodydd hyn yn gadael llawer o amser i fwrw ymlaen â chymau gweithredu.
- 69 Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau diweddaredig (Hydref 2023) sydd wedi ei anelu at yr holl staff clinigol a'r rhai sy'n rhan o'r broses ryddhau. Mae'r polisi rhyddhau yn darparu dolenni i nifer o offer defnyddiol, megis y polisi dewis llety neu'r polisi ar gyfer rheoli cleifion sy'n amharod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac mae'n cynnwys sawl siart llif defnyddiol. Mae'r polisi rhyddhau hefyd yn atodi llwybrau D2RA ¹¹ yn ddefnyddiol, sy'n darparu'r teithiau y dylai cleifion eu cymryd ar bob cam. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r polisi rhyddhau yn cael ei gyfleu i staff gweithredol er mwyn galluogi ei effaith arfaethedig, a chyfyngedig yw'r dystiolaeth bod gweithrediad y polisi yn cael ei fonitro a'i adolygu.
- 70 Mae'r polisi yn annog rhyddhau ar ôl saith diwrnod a rhyddhau yn ystod y bore er mwyn rhyddhau gwelyau yn gynnar ar gyfer gweddill y diwrnod gwaith. Fodd bynnag, nododd adolygiad o ddata yn ymwneud â'r holl gleifion a gafodd eu

¹¹ Cynlluniwyd Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) a gynlluniwyd i gefnogi pobl i adfer gartref cyn cael eu hasesu ar gyfer unrhyw angen parhaus, gan leihau hyd yr arhosiad yn yr ysbyty.

rhyddhau o safleoedd aciwt y Bwrdd lechyd ym mis Hydref 2022 mai dim ond 5.9% o gleifion a gafodd eu rhyddhau dros y penwythnos (**Arddangosyn 9**). Yn ystod yr wythnos, mae rhyddhau yn cyrraedd y brig ar ddydd Llun, ac mae'r gyfran fwyaf o gleifion a ryddheir ar ddydd Llun yn digwydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Ni ryddhawyd unrhyw glaf o Ysbyty Athrofaol y Faenor ar ddydd Gwener, nac ar y penwythnos. Byddai'r rhyddhau sy'n cyrraedd y brig ar ddydd Llun yn awgrymu y gallai rhai o'r cleifion hyn gael eu rhyddhau ynghynt. Mae rhyddhau yn cyrraedd y brig ar ddydd Mercher yn Ysbyty Nevill Hall, a dydd Iau yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Brenhinol Gwent. Dywedwyd wrthym gan staff fod y patrwm hwn o ryddhau yng nghanol yr wythnos yn parhau, a bod cael y staff digonol, gan gynnwys ymgynghorwyr ac uwch-glinigwyr sydd ar gael i gefnogi rhyddhau ar benwythnosau yn parhau i fod yn her.

Arddangosyn 9: diwrnod rhyddhau yr holl gleifion a ryddhawyd o safleoedd ysbyty aciwt ym mis Hydref 2022, fel canran o gyfanswm y cleifion a ryddhawyd¹²



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 71 Canfu ein hadolygiad o nodiadau achos cleifion ysbyty nad yw cynllunio i ryddhau yn cael ei ystyried yn ddigon cynnar yn nhaith y claf ac nad yw'n cael ei gofnodi'n dda bob amser a bod ansawdd y nodiadau a gymerir yn amrywio. Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn ein sampl bod dyddiadau rhyddhau disgwyledig wedi eu pennu o fewn 48 awr o dderbyn y claf yn unol â'r polisi, a chyfyngedig oedd y dystiolaeth o

¹² Nid yw'n cynnwys cleifion a fu farw.

gynllunio i ryddhau yn y nodiadau. Heb wybodaeth rhyddhau clir yn nodiadau y cleifion, gallai cleifion aros yn yr ysbyty yn hirach na'r angen.

- 72 Nododd nodiadau achos heriau fel diffyg llety addas i gleifion, ac amrywiadau yn statws 'ffit yn feddygol' y cleifion, a effeithiodd ar y gallu i'w rhyddhau. Roedd tystiolaeth bod llesiant cyffredinol cleifion, gan gynnwys dewisiadau rhyddhau yn cael eu hystyried, ond yn gyffredinol, nid oedd gwybodaeth a gofnodwyd yn y nodiadau achos yn ddigonol i gael sicrwydd bod prosesau rhyddhau yn cael eu dilyn fel mater o drefn fel y bwriadwyd.
- 73 Ym mis Tachwedd 2020, datblygodd y Bwrdd lechyd arweiniad ar gyfer cleifion, teuluoedd a gofalwyr sy'n egluro'r hyn sy'n digwydd yn ystod y broses o gynllunio i ryddhau a'r camau nesaf. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi rhyddhau y Bwrdd lechyd ac mae wedi ei ddiweddarau a'i atodi i'r polisi diweddaredig fel y gall y staff gael gafael arno, ond nid yw'n glir sut na phryd y rhoir gwybod i gleifion am yr arweiniad na sut y caiff ei ddosbarthu.
- 74 Er mwyn sicrhau diwylliant cyson a dull cynllunio i ryddhau ar draws pob sector, mae angen i hyfforddiant rhyddhau fod yn gyson. Er y dywedwyd wrthym fod hyfforddiant cynllunio i ryddhau yn digwydd yn rhan o hyfforddiant cynefino staff yn y Bwrdd lechyd, roedd gan y staff gweithredol safbwyntiau anghyson ynghylch a yw hyfforddiant gloywi perthnasol yn cael ei gynnig. Mae angen i hyfforddiant gynnwys staff gofal cymdeithasol hefyd, er mwyn sicrhau bod eglurder ar swyddogaethau, cyfrifoldebau a disgwyliadau. Er bod staff wedi nodi y byddai hyn yn ddefnyddiol, nid fu hyfforddiant ar y cyd ar waith yn bennaf oherwydd nifer y partneriaid statudol y mae angen cydlynu â nhw. Byddai hyfforddiant gloywi ar y cyd yn helpu i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn deall polisïau a phrosesau cyfredol ac yn gwreiddio dull y Bwrdd lechyd ar draws disgyblaethau.
- 75 Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fodel Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA), a gynlluniwyd i gefnogi pobl i adfer gartref cyn cael eu hasesu ar gyfer unrhyw angen parhaus, gan leihau hyd yr arhosiad yn yr ysbyty. Cyflymwyd gweithrediad y model yn ystod y pandemig, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhanbarthau gydag arian ychwanegol yn y cyfamser i wreiddio D2RA ymhellach.
- 76 Roedd data cenedlaethol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2023 yn dangos bod y Bwrdd lechyd yn cael anhawster rhyddhau cleifion i leoliad priodol ar gyfer eu hasesiad, fel yr argymhella D2RA. Dangosodd data am y Bwrdd lechyd fod ganddo gyfran uchel o gleifion a oedd yn aros i drosglwyddo i lwybrau D2RA. Roedd llawer o'r cleifion hyn yn aros i gael eu rhyddhau i'w cartrefi eu hunain, neu wely gofal llai dwys, ond nid oeddent yn gallu gadael yr ysbyty oherwydd bod diffyg gwelyau o'r fath ar gael yn y gymuned. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau cenedlaethol diweddaredig ar D2RA ym mis Rhagfyr 2023. Bydd angen i'r partneriaid sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu'r canllawiau diweddaredig hyn.

Rhannu gwybodaeth

- 77 Canfuom fod **staff sy'n rhan o'r broses rhyddhau cleifion wedi creu gwaith gweithredol ar gyfer rhannu data megis cyfarfodydd llif cleifion, ond bod rhannu data ffurfiol ac ansawdd data yn newidiol ac nad yw rhyngwynebau digidol rhwng sefydliadau yn gydnaws.**
- 78 Yn nodweddiadol, bydd yn ofynnol i weithwyr proffesiynol sydd mewn ac ar draws sefydliadau rannu gwybodaeth am y claf er mwyn hwyluso trefniadau rhyddhau priodol a gofal parhaus, yn enwedig pan fo gan y claf anghenion mwy cymhleth.
- 79 Gall staff asiantaeth a locwm fod yn rhwstr i rannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws sefydliadau. Gall staff trosiannol efallai nad ydynt yn gwybod pwy i gysylltu ag ef i wneud cynnydd o ran rhyddhau, neu pa ddewisiadau cymorth sydd ar gael, fod yn rhwstr rhag gwreiddio gweithdrefnau ward a thîm a gwybodaeth leol. Mae hyn yn wir am staff y bwrdd iechyd a staff yr awdurdodau lleol. Gall hyn arafu cyfathrebu rhyngddynt ac â sefydliadau partner megis cyflenwyr gofal a'r trydydd sector. O ganlyniad, nid yw hyd arhosiad cleifion yn yr ysbyty yn cael ei leihau cyn gynted ag y bo hynny'n bosibl.
- 80 Bu rhywfaint o lwyddiant wrth rannu data ar lefel leol. Mae staff y Bwrdd Iechyd yn rhannu gwybodaeth mewn gwahanol gyfarfodydd am lif cleifion mewn cyfarfodydd gweithredol ac ar y ward. Mae'r cyfarfodydd hyn yn amrywio o ran ffurf, ond mae ganddynt swyddogaeth debyg ac maent yn cynnwys timau sy'n nodi cleifion a cham eu gofal. Gwnaethom arsylwi rhai cyfarfodydd ac mae'n ymddangos bod staff yn gallu cael yr wybodaeth berthnasol hon mewn modd amserol a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am gleifion nad yw eu newidiadau diweddar wedi bod drwy'r system eto.
- 81 Nid yw systemau sy'n dal gwybodaeth am gleifion wedi eu cysylltu neu'n weladwy i'r holl staff sy'n rhan o'r broses cynllunio gofal a rhyddhau cleifion unigol. Nid yw gwahanol systemau TG sy'n dal yr wybodaeth hon ar gael yn fyd-eang ar draws y gwahanol sefydliadau dan sylw. Tra bod pedwar o'r awdurdodau lleol wedi gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru¹³, nid yw cyngor Sir Fynwy wedi gwneud hynny ac er bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r system ym maes iechyd meddwl, nid yw wedi gweithredu'r system ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 82 Yn y Bwrdd Iechyd, mae gwahaniaethau o ran mynediad i wybodaeth ar draws safleoedd ysbyty. Mae staff Ysbyty Ystrad Fawr yn gallu cael gafael ar ddata yr awdurdod lleol sy'n eu galluogi i weld pa becynnau gofal sy'n cael eu hasesu a'u cydlynu ac i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd. Nid yw'n glir pam nad

¹³ Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn un system ac yn gofnod electronig a rennir i'w ddefnyddio ar draws ystod eang o wasanaethau oedolion a phlant. Y syniad yw y dylai pob un o'r 22 awdurdod lleol a'r saith bwrdd iechyd ei weithredu, gyda'r dyddiad gweithredu arfaethedig cychwynnol ar ddiwedd 2018. Sefydlwyd rhaglen genedlaethol newydd 'Galw Gofal' ym mis Mai 2024 i ddisodli WCCIS o fis Ionawr 2026.

yw hyn yn safonol ar draws pob safle ysbyty gan fod y staff yn ei ystyried yn offeryn cadarnhaol at ddibenion sbarduno rhyddhau a chyfathrebu'n effeithiol â chleifion a theuluoedd.

- 83 Er ein bod wedi nodi rhai enghreifftiau da o rannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol, rhoddwyd gwybod inni efallai na fydd y data yn gywir bob amser. Er enghraifft, efallai na fydd lleoedd gwelyau cartrefi gofal yn adlewyrchu gwelyau allan o'r comisiwn oherwydd gwaith adnewyddu neu welyau na ellir eu staffio. Gall hyn achosi rhwystredigaeth i'r staff ynghylch cywirdeb data a gall rwystro'r broses o gynllunio i ryddhau yn y tymor byr a'r tymor canolig, gan atal dadansoddiad data effeithiol.
- 84 Cyflwynwyd Rhaglen Chwe Nod¹⁴ yn 2021, ac fe'i trafodwyd mewn cyfarfod bwrdd diweddar a chydabu'r Bwrdd lechyd fod materion ansawdd gyda'r data sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion. Nodwyd materion dibynadwyedd data mewn cysylltiad â nifer y cleifion sy'n ffit yn feddygol ac wrth godio'r rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod gwaith i'w wneud yn y maes hwn ond yn y cyfamser, rhaid cydnabod yn fewnol bod data yn ddiffygiol.
- 85 Yn y pen draw, er bod y Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol yn rhanbarth Gwent yn dal swm sylweddol o ddata, mae rhannu data a mynediad at y systemau TG perthnasol yn amrywio. Defnyddir cyfarfodydd rheolaidd i ddilysu rhagdybiaethau presennol, ond ni ellir dibynnu ar ddata na holi'n ddigonol bob amser i gyfrannu at y broses o gynllunio i ryddhau cleifion mewn ffordd gyson.
- 86 Yn unol â byrddau ieuchyd eraill, nid yw staff bob amser yn gwbl ymwybodol o'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned, a gwneir hyn yn anos gan ddarpariaeth gwasanaeth traws-fwrdeistref. Fodd bynnag, cawsom sylwadau, pan fo staff gofal cymdeithasol yn rhan annatod o'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion mewn lleoliad ysbyty, fod mynediad at yr wybodaeth hon wedi gwella.
- 87 Mae'r diffyg systemau digidol integredig gyda data dibynadwy ar gyfer gwybodaeth i gleifion hefyd yn golygu bod staff yn treulio amser yn galw lleoliadau megis cartrefi gofal i wirio a yw'r gwelyau a restrir fel yr hyn sydd ar gael mewn gwirionedd. Ym mis Mehefin 2023, buddsoddodd y Bwrdd lechyd £37,000 mewn system digidol newydd 'Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA)'. Bydd y system o'r enw CWS2 yn cadw data, gan gynnwys statws sydd wedi ei optimeiddio'n glinigol a'u rheswm dros oedi. Bwriad hyn yw helpu i gynllunio ac adrodd y cleifion a ryddheir, gan gynnwys darparu gwybodaeth amser real ar lefel ward. Yn anffodus, mae heriau technegol yn golygu bod gweithredu'r system hon a gwaith adrodd dilynol wedi eu gohirio erbyn hyn.

¹⁴ Ceir rhagor o wybodaeth am chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng drwy <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-ar-y-rhaglen-chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng>

Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd?

- 88 Mae'r adran hon yn ystyried y camau a gymerir gan y sefydliadau statudol, gan gynnwys drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i wella'r llif cleifion allan o'r ysbyty.

Cynlluniau strategol a gweithredol

- 89 Canfuom fod **mynd i'r afael â llif cleifion yn ganolog i gynlluniau strategol a gweithredol perthnasol ar draws rhanbarth Gwent ac yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.**
- 90 Gwnaethom adolygu cynlluniau perthnasol y Bwrdd lechyd a'r awdurdodau lleol mewn cysylltiad â chynllunio i ryddhau, a gofal brys ac argyfwng a gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol. Canfuom fod cynlluniau yn y rhanbarth yn adlewyrchu dealltwriaeth dda o'r heriau sy'n effeithio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Er enghraifft, datblygwyd y Cynlluniau Cadernid y Gaeaf Integredig ar gyfer 2022–23 a 2023–24 ar y cyd drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd cadw pobl yn iach gartref a rhyddhau cleifion yn gynnar â chymorth yn agweddau allweddol ar y cynlluniau gan gydnabod cyfyngiadau y capasiti gwelyau a'r gweithlu yn yr ysbytai. Mae'r cynlluniau'n nodi'r heriau a wynebodd y Bwrdd lechyd a rhywfaint o'r gweithgaredd a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r heriau hyn.
- 91 Roedd Cynllun Cadernid y Gaeaf 2022–23 yn adlewyrchu gofynion cynllunio allweddol Llywodraeth Cymru, fel y rhai yn y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn ogystal â her 1,000 o welyau Llywodraeth Cymru¹⁵. Strategol oedd y cynllun, ond roedd ganddo rai agweddau gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys cynllun gweithredu lefel uchel yn amlinellu cynlluniau penodol, yr effaith sydd ei hangen a'r sefydliad arweiniol. Roedd y cynlluniau'n cynnwys ailgyflwyno'r model asesydd dibynadwy a mwy o gefnogaeth fferylliaeth i Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor.
- 92 Datblygodd Cynllun Cadernid y Gaeaf 2023–24 dair egwyddor graidd sef Pwyslais, Pŵer Prosesu a Chapasiti i dargedu'r meysydd her penodol sy'n parhau i fod yr un fath â'r flwyddyn flaenorol i raddau helaeth megis pwysau mewn gofal cymdeithasol, gofal brys ac adferiad gofal wedi ei gynllunio. Nod llawer o'r camau gweithredu yn yr egwyddorion craidd yw effeithio ar lif cleifion megis Uned Eiddilwch yr Henoed yn Ysbyty Brenhinol Gwent er mwyn lleihau derbyniadau diangen. Cam gweithredu arall oedd asesiadau yn canolbwyntio ar therapi yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn y gobaith o asesu cleifion a'u

¹⁵ Ym mis Gorffennaf 2022 rhoddodd y Gweinidog dros lechyd a Gofal Cymdeithasol her i Fyrddau lechyd ac Awdurdodau Lleol sefydlu 1,000 o leoedd gwelyau ychwanegol neu'r hyn sy'n gyfwerth â hynny i gefnogi'n dasg o ryddhau'n amserol <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwedddariad-ar-y-rhaglen-chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng>. Cafodd parhad y gwelyau ychwanegol ei gynnwys yn natganiad o fwriad [Meithrin gallu drwy ofal cymunedol – ymhellach, yn gyflymach](#) Llywodraeth Cymru a lansiwyd ym mis Mehefin 2023.

rhyddhau adref yr un diwrnod, sydd wedi dangos rhai arwyddion cynnar o lwyddiant

- 93 Mae gan Gynllun Tymor Canolig Integredig 2022–2025 y Bwrdd Iechyd flaenoriaeth benodol ar gyfer oedolion hŷn. Mae hwn wedi bod yn faes sy'n datblygu i'r Bwrdd Iechyd gyda thrawsnewid yn digwydd bob blwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu creu un llwybr ar gyfer pobl hŷn mewn cydweithrediad â gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Dylai hyn symleiddio sut mae cleifion a darparwyr yn cael gafael ar wasanaethau ac yn gosod atal wrth ei wraidd. Cyflwynir unedau eiddilwch penodol mewn ysbytai aciwt ar gyfer asesiadau arhosiad byr a diagnosteg lle gellir derbyn cleifion na fyddai'n elwa o fodolau gofal meddygol traddodiadol. Os bydd hyn yn llwyddiannus, dylai lleihau hyd yr arhosiad, lleihau risg ac alinio ag uchelgais Rhaglen Chwe Nod o ran y gofal cywir, yn y lle cywir, y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae'r adrodd ar berfformiad diweddar i gyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn dangos bod y mesur hyd arhosiad wedi aros yn ddigryfnedig ac nad fu llawer neu ddim gwelliant mewn dangosyddion rhyddhau a llif, megis cynnydd yn y nifer a ryddheir cyn hanner dydd.
- 94 Mae Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn cynnwys dau nod sy'n gysylltiedig â gwella'r broses o ryddhau: 'nod pump—gofal yn yr ysbyty a rhyddhau cystal â phosibl o'r adeg pan dderbynnir y claf', a 'nod chwech: dull cartref yn gyntaf a lleihau'r risg o aildderbyn'. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun chwe nod penodol sydd ar wahân i'w Gynllun Tymor Canolig Integredig a chynllun cyflawni blwyddyn ydyw. Mae adran 'cyflawniadau allweddol' o'i chymharu â phob nod yn rhoi naratif defnyddiol o weithgareddau sydd ar y gweill er y gallai hyn fod yn fwy manwl. Mae Nod 5—gofal yn yr ysbyty a rhyddhau cystal â phosibl o'r adeg pan dderbynnir y claf a Nod 6—nod chwech: dull cartref yn gyntaf a lleihau'r risg o aildderbyn wedi eu cyfuno yn 'Dychwelyd ac Aros yn Iach Gartref'. Mae hyn yn cynnwys pum ffrwd waith ar wahân, gan gynnwys 'Model Asesydd Dibynadwy' a 'Hyb Rhyddhau Integredig'. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys effaith a mesurau disgwyliedig a chyflawniadau chwarterol. Fodd bynnag, byddai'r cynllun yn elwa ar dargedau mwy diffiniedig i fonitro'r cynnydd.
- 95 Mae cynlluniau bwrdd partneriaeth gwasanaethau integredig ar y cyd ar gyfer 2023-26 yn nodi blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Er nad yw pob un ohonynt yn trafod materion mewn cysylltiad â llif allan o'r ysbyty yn uniongyrchol, maent yn adlewyrchu'r angen i gadw pobl hŷn yn iach a dull system cyfan o gefnogi pobl ar ôl iddynt fynd i'r ysbyty. Mae'r byrddau partneriaeth gwasanaethau integredig hefyd yn cydnabod yr angen i gydweithio er mwyn cefnogi pobl gartref a mynd i'r afael ag effaith heriau gweithlu. Mae bwrdd partneriaeth gwasanaethau integredig Blaenau Gwent yn mynd ymhellach ac yn cyfeirio'n benodol at yr angen i gyflawni uchelgeisiau y chwe nod, ac yn gadarnhaol hefyd, yr angen i ddarparu arweinyddiaeth system ar draws partneriaid er mwyn sicrhau bod anghenion y boblogaeth yn cael eu diwallu. Mae pob un o'r byrddau partneriaeth gwasanaethau integredig yn cefnogi'r broses o gyflawni'r Cynllun Ardal Rhanbarthol.

Gweithio mewn partneriaeth

- 96 Canfuom fod **gweithio mewn partneriaeth strategol yn amlwg ledled y rhanbarth, gan adeiladu ar gydberthnasau cydweithredol presennol, ond bod gweithio mewn partneriaeth weithredol yn llai datblygedig.**
- 97 Mae gweithio mewn partneriaeth yn strategol wedi ei ddatblygu'n dda ac yn parhau i adeiladu ar bartneriaethau cadarnhaol presennol ledled rhanbarth Gwent. Mae perchnogaeth ar y cyd am ddod o hyd i atebion i heriau wedi ei gwreiddio yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i is-grwpiau a'i fforymau cysylltiedig, ac mae'n ymddangos bod cyfrifoldeb a chydweithrediad yn ganolog i ddatblygiad prosiect a'r ffordd y datblygwyd dulliau llywodraethu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- 98 Mae cynrychiolaeth amrywiol gan amrywiaeth o sefydliadau statudol a gwirfoddol yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn cael ei adleisio drwy brosiectau amrywiol a gefnogir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys datblygu Cynllun y Gaeaf. Mae pwysau gofal brys ac argyfwng a chynllunio i ryddhau cleifion yn ymddangos fel trafodaethau rheolaidd yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol sy'n adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae diweddariadau blaenorol wedi cynnwys y cynnydd gyda'r her 1,000 o welyau yn ystod diwedd 2022. Gofyniad Llywodraeth Cymru oedd i Went gyflawni 122 o'r 1,000 o welyau erbyn mis Hydref 2022. Adroddodd y rhanbarth ym mis Tachwedd 2022 ei fod wedi nodi 132 o welyau. Arhosodd y gwelyau hyn ar waith ar gyfer 2023–24.

Defnyddio cyllid

- 99 Canfuom fod **adnoddau ariannol yn cael eu targedu er mwyn cefnogi llif cleifion gyda chanlyniadau cadarnhaol, er bod gallu'r partneriaid i ddarparu arian cyfatebol yn gynyddol heriol ac y gallai effaith y mentrau a ariennir fod yn fwy tryloyw.**
- 100 Mae'r rhanbarth yn defnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi cynlluniau sydd â'r nod o wella'r broses o gynllunio i ryddhau. Cronfa 5 mlynedd Llywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen newid rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2027 yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Nod y gronfa yw sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig, er mwyn darparu gwasanaeth di-dor ac effeithiol i bobl Cymru. Mae dau yn cynnwys cyswllt clir i wella'r llif cleifion allan o'r ysbyty, sef: Gwasanaethau Adref o'r Ysbyty; ac Atebion ar Sail Llety.
- 101 Mae disgwyliad clir yng nghanllawiau y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fod partneriaid yn darparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau hyd at 50% erbyn diwedd blwyddyn 5, gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer pob prosiect sy'n meinhaus bob blwyddyn er mwyn caniatáu i brosiectau llwyddiannus ddod yn fusnes fel arfer. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ariannol y mae'r GIG yn eu hwynebu ar hyn o bryd, mae'r disgwyliad hwn wedi ei lacio.

- 102 Yn ehangach, defnyddiwyd arian y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gefnogi'r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Defnyddiwyd arian i gynyddu lwfansau tanwydd y staff gofal cymdeithasol, er mwyn cynorthwyo recriwtio a chadw a datblygu micro-ofalwyr mewn ymateb i'r prinder cenedlaethol o weithwyr gofal. Yn ôl Cynllun Amlinellol Strategol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, disgwyliad i bartneriaid gyfrannu cyfanswm o £7.3 miliwn ar gyfer pob cynllun a ariennid gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol drwy ddarparu arian cyfatebol. Pwysleisiodd y rhai y buom yn siarad â nhw y gall y gofyniad i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau greu amharodrwydd i ymrwymo i brosiectau newydd sy'n gofyn am arian cyfatebol yn y blynyddoedd i ddod.
- 103 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn casglu ac yn adrodd data i Lywodraeth Cymru am brosiectau amrywiol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol sy'n digwydd yn rhanbarthol. Rhennir hyn â phartneriaid bob chwarter hefyd. Mae aelodau'n hyderus bod prosiectau'n cael eu monitro'n gadarn. Fodd bynnag, nid yw'n glir iddynt bob amser pam y defnyddir y data o safbwynt gweithredol a'r effaith y mae'r monitro hwn yn ei gael. Fodd bynnag, mae Adroddiad Blynyddol Cronfa Integreiddio Rhanbarthol 2022–23 yn cyflwyno data perfformiad ar gyfer cynlluniau, gan gynnwys effaith gadarnhaol y rhaglen gwella llif system ar 8,824 o unigolion. Mae manylion Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2023–24 bellach yn 18 o brosiectau o dan y rhaglen gwella llif y system. Cyflawnir y rhaglen hon ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, a chefnogwyd dros 60,000 o bobl i ddychwelyd adref, adfer, adsefydlu ac adennill annibyniaeth yn 2023–24.
- 104 Datblygodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent ddiweddariad chwarter 4 'Story for Change' fel adlewyrchiad blynyddol o'r prosiectau a gyflawnwyd o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023–24. Dyraniad blwyddyn cyfan y rhaglen gwella llif system oedd £5.395 miliwn, gyda'r holl arian yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn. Mae prosiect o'r enw 'Newport including OT' wedi cael llwyddiant yn Ysbyty Brenhinol Gwent drwy ddatblygu cydweithrediad rhwng therapyddion galwedigaethol a'r tîm rhyddhau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod asesiadau a chynllunio cyn rhyddhau yn sicrhau bod cymorth ar waith i'r claf ddychwelyd adref, cyfyngu ar aildderbyniadau ac annog adferiad.
- 105 Yn yr un modd, mae'r prosiect cydlynu er mwyn rhyddhau cleifion o Ysbyty Sir Fynwy wedi arwain at lwyddiant, gan leihau arosiadau ysbyty i gleifion a gwella'r llif cleifion drwy gydlynu'n fwy effeithiol rhwng lleoliadau gofal iechyd a darparwyr gofal cymunedol. Darperir astudiaethau achos yn rhan o adroddiad 'Story for Change', ond gallai'r rhain ar gael yn ehangach ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- 106 Gwnaed newidiadau i'r model lolfâ rhyddhau hefyd, gan ddefnyddio gwariant cyfalaf y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn Ysbyty Brenhinol Gwent gan ddefnyddio dysg o safle yng Ngwlad yr Haf sy'n gweithredu model 'tynnu' i dynnu cleifion sy'n barod i gael eu rhyddhau o'r lleoliad ward aciwt. Mae'r broses o weithredu ac ehangu'r lolfâ rhyddhau diweddaredig yn cael ei monitro drwy gydol 2024–25 o dan Rhaglen Chwe Nod er mwyn asesu'r effaith. Mae hyn yn cynnwys

ymwneud yn agosach â gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a gwasanaethau fferylliaeth er mwyn gwella'r proses o ryddhau cleifion. Wrth symud ymlaen, mae lleoedd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor hefyd yn cael eu cwmpasu ar gyfer y posibilrwydd o ehangu'r lolf a ryddhau.

- 107 Mae uned 'Barod i Fynd' hefyd wedi ei sefydlu yn Ysbyty Brenhinol Gwent sy'n adlewyrchu'r cymorth y byddai cleifion yn ei gael yn eu hamgylchedd cartref. Mae hyn ar gyfer cleifion sydd wedi eu hoptimeiddio gan therapi ac mae'n cynnwys cysylltiad cyfyngedig â nyrsys heb ymyrraeth meddygol rheolaidd. Er nad yw hwn yn brosiect y mae'r Bwrdd lechyd yn ei ystyried sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor, mae'n un yr ystyrir yn angenrheidiol o ystyried y pwysau capasiti gwelyau presennol. Unwaith eto, mae'r model wedi ei gynllunio i dynnu pobl o safleoedd aciwt wrth iddynt aros am becynnau gofal ac annog annibyniaeth. Fodd bynnag, noda diweddariad i'r Bwrdd ym mis Medi 2024 ynghylch gwella'r broses ryddhau y niferoedd oedi uchaf yn Ysbyty Brenhinol Gwent gan ddisgwyl adolygiad o hybiau rhyddhau, lolfeydd rhyddhau a'r uned Barod i Fynd er mwyn deall yr oediadau yn fanylach.
- 108 Yn ôl diweddariad y rhaglen chwe nod i gyfarfod Bwrdd y Bwrdd lechyd ym mis Mai 2024, ers mis Hydref 2023, mae nifer cyfartalog y cleifion sy'n cael eu rhyddhau bob mis o Ysbyty Brenhinol Gwent wedi bod yn uwch (535) na nifer cyfartalog y cleifion a ryddhawyd rhwng mis Mai 2021 a mis Medi 2023 (479). Er efallai na fydd yn bosibl priodoli'r gwelliant hwn i'r newidiadau yn y lolf a rhyddhau diweddaredig a'r ward 'Barod i Fynd' yn unig, mae'n debygol bod y fenter hon wedi cyfrannu at wella'r llif cleifion ac, yn sicr, annibyniaeth cleifion.

Craffu a sicrwydd

- 109 Canfuom fod **goruchwyliaeth glir ac y creffir ar y camau gweithredu a gymerir er mwyn gwella'r llif cleifion, er y gellid gwneud mwy i gasglu sylwadau cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r polisiau rhyddhau cyfredol a chynyddu'r gwaith goruchwyllo gweithgareddau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gynhelir gan awdurdodau lleol.**
- 110 Mae'r Bwrdd lechyd yn cael adroddiadau perfformiad a gweithgarwch rheolaidd sy'n canolbwyntio ar gyflawni targedau cenedlaethol allweddol a gynhwysir yn y dangosfwrdd perfformiad, drwy'r Bwrdd ac yn fwy penodol y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae hefyd yn cael Adroddiad Canlyniadau a Pherfformiad chwarterol sy'n cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu â'r chwe nod, gan gynnwys cerrig milltir a chamau gweithredu ar gyfer y chwarter nesaf.
- 111 Mae gan y Bwrdd lechyd strwythurau gweithredol ar waith i gyflawni a monitro'r rhaglen chwe nod drwy Fwrdd Rhaglen Chwe Nod. Mae tair ffrwd waith cyffredinol yn tanategu hyn, ac mae gan bob un ohonynt Uwch-swyddog Cyfrifol, Rheolwr Rhaglen ac Arweinydd Gweithredol penodedig. Mae hyn yn annog perchnogaeth ar lefelau uwch. Mae Bwrdd y Rhaglen Chwe Nod yn adrodd i Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd lechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

- 112 Cyflwynwyd diweddariad Rhaglen Chwe Nod annibynnol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2024. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau allweddol, blaenoriaethau a data. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o graffu a her yn y cyfarfod, ond gellid cryfhau hyn i fod yn fwy penodol o ran rhyddhau cleifion o ystyried yr heriau presennol y mae'r Bwrdd lechyd yn eu hwynebu oherwydd effaith llif cleifion. Cyflwynir adroddiadau ar y chwe nod i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn rheolaidd.
- 113 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn goruchwyllo ac yn monitro'r broses o gyflawni prosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol o'i chymharu â'r cynllun rhanbarthol drwy ei swyddfa rheoli perfformiad a'i strwythur partneriaeth megis Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn galluogi dysg ac arferion da i gael eu nodi a'u rhannu ar draws partneriaid ac roedd staff y Bwrdd lechyd a'r awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol am ei swyddogaeth yn gyffredinol. Mae Adroddiad Blynnyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys cymysgedd o naratif a data hygyrch am brosiectau, gan gynnwys sut mae wedi ymgysylltu â dinasyddion i gynnwys eu safbwyntiau.
- 114 Mae Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2023–24 yn darparu naratifau defnyddiol ac astudiaethau achos o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol gan gynnwys rhywfaint o ystadegau effeithiol am sylwadau defnyddwyr gwasanaethau. Cydnabyddir bod rhyddhau cleifion o ysbytai yn thema graidd ar gyfer 2024–25, a bod gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith ar ofalwyr a chefnogaeth iddynt.
- 115 Goruchwylir yr heriau gyda llif cleifion yng nghyfarfodydd y Bwrdd lechyd cyhoeddus. Nododd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ym mis Mai 2024 a amlinellwyd yn ei Adroddiad Perfformiad Cyllid mai'r gost amcangyfrifedig am y flwyddyn ar gyfer gwelyau wedi eu blocio am bob rheswm oedd oddeutu £15.5 miliwn. Derbyniodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad adroddiad diweddar ym mis Medi 2024
- 116 Fel y sonnir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod archwiliad yn cael ei gynnal o'i gymharu â'r polisi rhyddhau a bod gwersi a ddysgir ohono yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, fel y nodir yn y polisi. Cyfyngedig hefyd yw'r dystiolaeth o sefydliadau yn monitro ac yn craffu ar sylwadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff. Er bod y polisi rhyddhau yn cyfeirio at arolwg blynnyddol o ddefnyddwyr a gofalwyr er mwyn deall eu profiadau rhyddhau, ni welsom unrhyw dystiolaeth o hyn yn digwydd. Cyfeiriodd cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol at ofyn am sylwadau gan gleientiaid a'u teuluoedd drwy sgysiau yn hytrach nag arolygon, ond gwnaethant gydnabod y gellid gwneud mwy i gipio profiad a sylwadau defnyddwyr gwasanaethau fel mater o drefn.
- 117 Mae'r broses o oruchwyllo gweithgarwch y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar lefel awdurdod lleol yn amrywiol. Mae dystiolaeth bod cynnydd a pherfformiad yn cael eu hadrodd i bwyllgorau craffu, ond yn anaml y mae hyn ac, yn flynyddol fel arfer, gan fonitro gweithgarwch yn ysbeidiol yn unig.

Beth arall y gellir ei wneud?

- 118 Er bod partneriaid rhanbarthol yn cydnabod yn glir y problemau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, awydd i fynd i'r afael â nhw gyda'r pwyslais cywir mewn strategaethau a chynlluniau, prosiectau effeithiol a chydberthnasau strategol da, nid yw nifer yr oediadau cyn rhyddhau ledled y rhanbarth wedi lleihau'n sylweddol.
- 119 Mae ein gwaith wedi canfod bod nifer o gamau eraill y gellid eu cymryd a fyddai'n helpu i wella llif amserol ac effeithiol allan o'r ysbyty ledled y rhanbarth a lleihau rhai o'r heriau y mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn eu profi ar hyn o bryd. Archwilir y camau gweithredu hyn yn yr arddangosyn canlynol ac maent yn gydnaws â'r argymhellion a nodir yn gynharach yn yr adroddiad.

Arddangosyn 10: camau eraill i bartneriaid er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau llif cleifion allan o'r ysbyty

Gwella hyfforddiant a chanllawiau ar gynllunio i ryddhau cleifion	Mae'n hanfodol cael mynediad at ganllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd sy'n nodi'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau, a disgwyliadau ynghylch pryd a sut y dylai staff rannu gwybodaeth, gan gynnwys atgyfeiriadau, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng wardiau, ysbytai, proffesiynau a sefydliadau. Mae cynnig rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer staff perthnasol sy'n rhan o lif cleifion, gan gynnwys staff banc ac asiantaeth, yn ogystal â staff newydd sy'n dechrau, hefyd yn sicrhau bod canllawiau'n cael eu gwreiddio.
Gwreiddio dull 7 diwrnod o ryddhau cleifion	Bydd y gallu i symud oddi wrth ddull dydd Llun i ddydd Gwener a gwreiddio dull 7 diwrnod o ryddhau ar draws pob disgyblaeth, gan gynnwys ymgynghorwyr ac uwch-glinigwyr yn cael effaith gadarnhaol ar y llif cleifion. Bydd hyd yn oed canolbwyntio ar gyfleoedd i ryddhau nad ydynt yn gymhleth yn ystod y penwythnos yn helpu i osgoi arosiadau hir a lleihau'r pwysau rhyddhau ar ddechrau yr wythnos waith.
Swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â rhagnodi gormod o becynnau gofal yn anffurfiol	Sicrhau bod yr holl staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o ran rhagnodi pecynnau gofal yn anffurfiol ac yn gallu atal rhagnodi gormod a disgwyliadau diangen mewn cysylltiad â darparu gofal yn y dyfodol. Mae grymuso cleifion i gael lefel y gofal y mae'r gweithiwr proffesiynol perthnasol yn ei rhagnodi yn unig yn

	annog annibyniaeth yn y dyfodol a gallai arwain at lai o achosion o aildderbyn.
Parodrwydd i dderbyn risg mewn cysylltiad â rhyddhau cleifion	Bydd cael parodrwydd i dderbyn risg cyson ac a arweinir gan reolwyr mewn cysylltiad â rhyddhau cleifion yn annog rhyddhau cleifion mewn modd mwy prydlon. Dylai cydbwysu'r risg o ryddhau o'i chymharu â'r risg o ddatgyflyru a cholli annibyniaeth a/neu becynnau gofal i gleifion fod yn ystyriaeth allweddol.
Gwreiddio dull Model Asesydd Dibynadwy	Bydd gwreiddio'r model Asesydd Dibynadwy a chyfleu'r dull hwn i'r holl bartneriaid yn cynyddu capasiti yn ystod y cyfnod asesu. Er bod cydnabyddiaeth efallai na fydd hyn yn helpu i sicrhau pecynnau gofal neu leoliadau yn gyflymach; bydd yn sicrhau bod y capasiti i asesu cleifion yn gywir pan fo angen.
Gwella'r broses o oruchwyllo polisiâu a chanllawiau	Bydd sicrhau monitro a chydymffurfio â pholisi rhyddhau y Bwrdd lechyd yn helpu i asesu effeithiolrwydd a chysondeb yr hyn a gymhwysir ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r polisi. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn cydymffurfio â'i ymrwymiad ei hun gan ymgymryd ag adolygiad blynyddol o'r polisi ac adrodd hynny i'w Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion.
Gwella ansawdd a rhannu gwybodaeth	Gall dogfennu a rhannu gwybodaeth am gleifion yn fwy effeithiol ei gwneud yn bosibl i ryddhau cleifion yn fwy rhydd ac annog gwell perthnasoedd. Mae cael gwybodaeth clir a chynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion, sy'n nodi'r camau a gymerir i gefnogi'r broses o ryddhau, yn galluogi dealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n digwydd gyda chlaf ac yn cefnogi'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gofalu am gleifion i gynllunio i'w rhyddhau yn effeithiol pan maent yn yr ysbyty.

Mae **systemau cydgysylltiedig** sy'n hygyrch i'r holl staff (ni waeth beth fo'u sefydliad) sy'n rhan o ofalu am gleifion unigol yn galluogi dulliau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon rhwng sefydliadau ac yn cefnogi llif effeithiol allan o'r ysbyty.

Sefydlu dulliau i gasglu sylwadau a chymhwyso dysg

Bydd sefydlu **dulliau lle gellir monitro a dadansoddi sylwadau cleifion, y staff a defnyddwyr gwasanaethau** yn helpu i ddatblygu taith y claf.

Gall y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol ddatblygu dulliau sy'n canolbwyntio'n fwy ar gleifion drwy ddeall profiad pobl sydd wedi bod yn rhan o broses rhyddhau.

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau hyn.

Arddangosyn 11: dulliau archwilio

Elfen y dulliau archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys: • Papurau Bwrdd, Cabinet, a phwyllgor • Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Chwe Nod a gofal brys ac argyfwng i bwyllgorau • Cynlluniau gweithredol a strategol sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng • Papurau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys astudiaethau achos • Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer cynllunio i ryddhau • Cofrestrau risg corfforaethol ac adroddiadau perfformiad • Dogfennau gweithredol, megis ffurflenni safonol a rhestrau gwirio, prosesau uwchgyfeirio, llawlyfrau staff a thaflenni gwybodaeth a chanllawiau
Cyfweliadau	Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol: • Arweinydd ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol • Y Pennaeth Rhyddhau Cleifion • Y Cyfarwyddwr Gweithredu Gweithredol • Rheolwr Cyffredinol Teulu a Therapïau • Rheolwr Cyffredinol Gofal Brys • Pennaeth Cynorthwyol Rhyddhau Cleifion • Rheolwr Cyffredinol Meddygaeth • Dirprwy Bennaeth Gweithrediadau • Y Rheolwr Gweithrediadau Adrannol • Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Meddwl • Prif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (Llais bellach)

Elfen y dulliau archwilio	Disgrifiad
	• Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen • Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen
Arsylwadau	Gwnaethom arsylwi'r cyfarfod(ydd) a ganlyn: • Cyfarfod llif ar draws safleoedd drwy Teams • Cyfarfod Llif (Tîm Amlddisgyblaethol Gwanwyn) • Cyfarfod Llif (Canolfan Addysg Ysbyty Ystrad Fawr) • Cyfarfod Gofal Brys Chwe Nod • Cyfarfod Arwain y System ac Ymateb Gwnaethom arsylwi ar yr unigolion canlynol hefyd: • Y Cydlynnydd Rhyddhau yn Ysbyty Neville Hall
Dadansoddi data	Gwnaethom ddadansoddi'r data cenedlaethol canlynol: • Set ddata gwasanaethau cymdeithasol misol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru • Set ddata oediadau cyn rhyddhau misol a gyflwynwyd i Weithrediaeth y GIG • Data StatsCymru • Dangosyddion y gwasanaeth ambiwlans Gwnaethom ddadansoddi data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd hefyd yn ymwneud â'r holl gleifion meddygaeth brys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 a arhosodd am fwy nac 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw).
Grwpiau pwyslais	Gwnaethom gynnal grwpiau pwyslais gyda'r canlynol: • Gweithwyr cymdeithasol (Blaenau Gwent a Chaerffili) • Gweithwyr cymdeithasol (Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) • Cydlynwyr rhyddhau
Adolygu Nodiadau Achos	Gwnaethom adolygu sampl o 29 o nodiadau achos yn ymwneud â chleifion meddygaeth brys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 a arhosodd am fwy nac 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw).

Atodiad 2

Rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi'r rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru.

Arddangosyn 12: rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oediadau (Chwefror 2024)

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd Cymru
Aros am asesiad ar y cyd	14.2	9.0
Aros i gwblhau asesiad clinigol (nyrsio/ gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd/ meddygol / fferylliaeth)	9.6	10.3
Aros am becyn gofal ailalluogi	6.3	3.0
Aros i reolwr cartref gofal preswyl i ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl)	6.3	2.5
Aros i ddechrau pecyn gofal cartref newydd	5.8	8.0
Aros i staff gofal cymdeithasol gwblhau asesiad	5.4	15.7
Aros i drefniadau gael eu cwblhau cyn lleoli	4.6	3.5
Aros i'r claf ariannu ei gartref nyrsio/preswyl	4.6	1.3
Aros am gapasiti adnoddau cymunedol	3.8	1.2
Aros am drosglwyddiad i gyfleuster gwely gofal canolradd	3.8	4.0
Aros i'r gwasanaeth iechyd gwblhau asesiad/darparu offer	3.3	1.4
Aros i reolwr cartref gofal nyrsio i ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl)	2.9	2.1
Aros am ofal ychwanegol/llety byw â chymorth sydd ar gael	2.5	0.9
Aros am asesiad gofal iechyd parhaus	2.1	1.7
Aros i weithwyr cymdeithasol gael ei ddyrannu	2.1	8.5
Capasiti meddyliol	2.1	2.1
Aros am gartref nyrsio sydd ar gael	1.7	2.6
Aros i'r gwasanaeth gofal cymdeithasol gwblhau asesiad/darparu offer	1.7	0.5
Dim preswylfa addas	1.7	2.3

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd Cymru
Aros am breswylfa ar gyfer pobl oedrannus sydd â salwch meddwl	1.3	2.3
Aros am benderfyniad ariannu (gofal nyrsio a ariennir/gofal iechyd parhaus)	1.3	1.5
Aros am wely arbenigol sydd ar gael	1.3	1.1
Oediadau y Llys Gwarchod	1.3	0.6
Digartref	1.3	0.9
Ymyriad gan gynrychiolaeth gyfreithiol y claf	1.3	0.2
Y claf/teulu yn gwrthod symud i gam nesaf y gofal/y broses o ryddhau	1.3	1.6
Materion diogelu yn effeithio ar drefniadau rhyddhau	1.3	0.5

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Sylwer: pan fo'r rhesymau dros oedi yn ymwneud â dau glaf neu lai, mae'r rhain wedi eu hepgor er mwyn lleihau unrhyw risg o adnabod cleifion unigol.

Y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fesul awdurdod lleol

Mae'r arddangosion canlynol yn nodi'r pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol o'u cymharu â'r sefyllfa ar draws y Bwrdd Iechyd a ledled Cymru.

Arddangosyn 13: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oediadau (Chwefror 2024)—Blaenau Gwent

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd Cymru
Aros i gwblhau asesiad clinigol (nyrsio/ gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd/ meddygol / fferylliaeth)	24.1	9.6	10.3
Aros am asesiad ar y cyd	13.8	14.2	9.0
Aros am becyn gofal ailalluogi	6.9	6.3	3.0
Aros am gapasiti adnoddau cymunedol	6.9	3.8	1.2
Capasiti meddyliol	6.9	2.1	2.1

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 14: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oediadau (Chwefror 2024)—Caerffili

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd Cymru
Aros i reolwr cartref gofal preswyl i ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl)	11.8	6.3	2.5
Aros i gwblhau asesiad clinigol (nyrsio/ gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd/ meddygol / fferylliaeth)	10.3	9.6	10.3
Aros am asesiad ar y cyd	10.3	14.2	9.0
Aros am gapasiti adnoddau cymunedol	8.8	3.8	1.2
Aros i staff gofal cymdeithasol gwblhau asesiad	5.9	5.4	15.7

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 15: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oediadau (Chwefror 2024)—Sir Fynwy

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd Cymru
Aros am asesiad ar y cyd	17.0	14.2	9.0
Aros i'r claf ariannu ei gartref nyrsio/preswyl	17.0	4.6	1.3
Aros i staff gofal cymdeithasol gwblhau asesiad	6.4	5.4	15.7
Aros i ddechrau pecyn gofal cartref newydd	6.4	5.8	8.0
Aros i reolwr cartref gofal nyrsio i ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl)	6.4	2.9	2.1

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 16: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oediadau (Chwefror 2024)—Casnewydd

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd Cymru
Aros am asesiad ar y cyd	19.1	14.2	9.0
Aros am drosglwyddiad i gyfleuster gwely gofal canolradd	17.0	3.8	4.0
Aros am becyn gofal ailalluogi	10.6	6.3	3.0
Aros i drefniadau gael eu cwblhau cyn lleoli	8.5	4.6	3.5
Aros i staff gofal cymdeithasol gwblhau asesiad	8.5	5.4	15.7

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 17: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oediadau (Chwefror 2024)—Torfaen

Rheswm dros oedi	Y ganran a oedwyd	Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd Cymru
Aros i gwblhau asesiad clinigol (nyrsio/ gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd/ meddygol / fferylliaeth)	15.3	9.6	10.3
Aros am asesiad ar y cyd	13.0	14.2	9.0
Aros i drefniadau gael eu cwblhau cyn lleoli	10.9	4.6	3.5
Aros i reolwr cartref gofal preswyl i ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl)	8.7	6.3	2.5
Aros i ddechrau pecyn gofal cartref newydd	6.5	5.8	8.0


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 3

Perfformiad gofal brys ac argyfwng


Mae'r arddangosion a ganlyn yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad gofal brys ac argyfwng o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022.

Arddangosyn 18: canran yr ymatebion brys i alwadau coch sy'n cyrraedd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 8 munud—targed cenedlaethol o 65%




Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 19: amser ymateb canolrifol ar gyfer galwadau oren (munudau)—
50fed canradd —targed cenedlaethol o 20 munud**




Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwlans

**Arddangosyn 20: canran y trosglwyddiadau ambiwlans o fewn 15 munud mewn
adran achosion brys mawr—targed cenedlaethol o 100%**




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Arddangosyn 21: canran y trosglwyddiadau ambiwlans dros 1 awr—targed cenedlaethol o sero




Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwylans

Arddangosyn 22: amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd adran achosion brys a brysennu gan glinigwr)—targed cenedlaethol o leihad dros 12 mis




Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

Arddangosyn 23: amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd adran achosion brys ac asesu gan uwch-wneuthurwr penderfyniadau clinigol—targed cenedlaethol o leihad dros 12 mis




Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

Arddangosyn 24: canran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr mewn adran achosion brys mawr—targed cenedlaethol o 95%




Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 25: canran y cleifion sy'n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys mawr—targed cenedlaethol o 100%



Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 26: canran o gyfanswm y diwrnodau gwely brys a gronnwyd gan bobl a oedd yn aros yn hwy nag 21 diwrnod—targed cenedlaethol o leihad dros 12 mis




Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

Atodiad 4

Arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal


Mae'r arddangosion canlynol yn nodi perfformiad y rhanbarth gydag arosiadau am asesiad gofal cymdeithasol ac i gael amrywiaeth o becynnau gofal o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Tachwedd 2022.

Arddangosyn 27: nifer yr oedolion sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol (fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 28: nifer yr oedolion sy'n aros am ofal cartref (fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 29: nifer yr oedolion sy'n aros am wasanaeth ailalluogi (fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 5

Ymateb ar y cyd y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Arddangosyn 30: ymateb ar y cyd y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Gwella hyfforddiant a chanllawiau ar gynllunio i ryddhau cleifion A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol wreiddio prosesau i gyfleu canllawiau cynllunio i ryddhau cleifion i'r holl staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro, â chefnogaeth rhaglen hyfforddiant gloywi a hyfforddiant parhaus a chyflwyniad hyfforddiant ar gyfer staff newydd. Pan fo hynny'n bosibl, dylid gwneud hyn ar y cyd.	Mae modelau rhyddhau presennol yn cael eu hadolygu ac ar ôl eu cwblhau byddant yn cael eu cyfleu'n glir i'r holl staff ysbyty a chymunedol. Mae'r system bresennol yn rhy gymhleth ac mae'n rhaid ei symleiddio er budd pobl Buddsoddiad sylweddol ledled y rhanbarth ar hyfforddiant Cydbwysio Hawliau a Chyfrifoldebau, gan ganolbwyntio ar lwybrau drws ffrynt er mwyn cefnogi staff i wneud penderfyniadau ar sail hawliau a risg sy'n rhoi'r unigolyn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ac a yw derbyn i'r ysbyty yn angenrheidiol ac yn briodol. Hyfforddiant amlbroffesiynol ac	Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrzio/ Penaethiaid Gwasanaeth Awdurdod Lleol/ Y Pennaeth Rhyddhau Cleifion

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddarau ei bolisi rhyddhau cleifion er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023.	amlasiantaethol yw hwn ar draws y pum Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Bydd yr holl staff sy'n gweithredu ym man rhyddhau yr ysbyty yn gallu cael gafael ar yr amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau yn rhan o'u hyfforddiant cynefino a'u datblygiad proffesiynol parhaus Diweddarau polisiâu rhyddhau gan gynnwys—achosion rhyddhau sy'n gymhleth a rhyddhau cleifion sy'n amharod i gael eu rhyddhau a pholisi dewis i adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol	Chwefror 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/ Penaethiaid Gwasanaeth Awdurdod Lleol/ Y Pennaeth Rhyddhau Cleifion
Gwreiddio dull 7 diwrnod o ryddhau cleifion A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol adolygu'r capasiti i wreiddio a chyflawni rhyddhad mewn 7 diwrnod. Er bod angen rhyddhau cleifion bob dydd, nid yw'r ffyrdd presennol o weithio yn cefnogi hyn, ac mae diffyg rhyddhau ar benwythnosau yn golygu bod cleifion yn cael arhosiad	Mae gan yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd gymorth rhyddhau ar waith drwy Gartref yn Gyntaf ac Adre o'r Ysbyty 7 diwrnod yr wythnos. Gellir adfer ac ailddechrau pecynnau gofal ar benwythnosau, parhau i wreiddio dull 7	Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/ Penaethiaid Gwasanaeth Awdurdod Lleol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
estynedig yn yr ysbyty sy'n cynyddu'r risg o ddatgyflyru ac o gael haint.	diwrnod o ryddhau ar draws y system. Gellir comisiynu gofal dros dro hefyd.		Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/ Penaethiaid Gwasanaeth Awdurdod Lleol
	Parhau i wreiddio cynllunio i ryddhau 7 diwrnod drwy Gartref yn Gyntaf ac Adre o'r Ysbyty, yn aml mae amharodrwydd i gefnogi rhyddhau ar benwythnosau (gwrth risg) hyd yn oed pan fo asesiadau Awdurdodau Lleol/Byrddau Iechyd yn dangos y gellir rhyddhau'r person adref yn ddiogel. Model asesydd dibynadwy drwy Gartref yn Gyntaf, mae'r gweithlu yn her	Mawrth 2025	
	Dilyniant rhyddhau dan arweiniad nyrsys yn rhan o'r model ward ysbyty gorau posibl yn Ysbyty Brenhinol Gwent ar draws tair ward	Mawrth 2025	
	Tîm Adnoddau Cymunedol—staff meddygol i weithio 7 diwrnod ddiwedd mis Ionawr	Ionawr 2025	
	Uwch-nyrs ar gyfer Rhyddhau a benodwyd yn Ysbyty Brenhinol Gwent, yn y swydd o 6 Ionawr, hysbysebwyd Uwch-nyrs ar gyfer Rhyddhau o Ysbytai Cymunedol, gan ganolbwyntio ar wreiddio proses rhyddhau 7 diwrnod	Ionawr 2025	

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â rhagnodi gormod o becynnau gofal yn anffurfiol A4 Dylai'r Bwrdd lechyd egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau ynghylch rhagnodi pecynnau gofal er mwyn sicrhau nad oes disgwyliadau afrealistig a diangen ar gleifion mewn cysylltiad â darpariaeth gofal. Mae hyn yn enwedig o wir am gleifion hŷn y gellid eu hystyried yn fregus. Gall hyn ddadrymuso cleifion rhag bod yn annibynnol a gallai arwain at eu haildderbyn i'r ysbyty yn y dyfodol.	Adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau ynghylch rhagnodi pecynnau gofal drwy'r model ward gorau posibl yn Ysbyty Brenhinol Gwent ar draws tair ward, gan gynnwys addysg/hyfforddiant ac adolygu rowndiau y bwrdd Datblygu cynllun cyflwyno ar gyfer y fframwaith ward gorau posibl ar draws yr holl safleoedd Ysbyty	Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Adolygu parodrwydd i dderbyn risg mewn cysylltiad â rhyddhau cleifion A5 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei agwedd ddiwylliannol a'i ddull o ymdrin â risg mewn cysylltiad â rhyddhau cleifion. Dylai hyn sicrhau bod risg yn cael ei asesu ar draws llwybr cyfan y claf, fel nad yw gwelyau yn cael eu dal yn ddiangen.	Bydd polisïau rhyddhau diweddaedig yn cael eu rhannu ac yn rhan o'r fframwaith addysg a chyfathrebu er mwyn helpu i flaenoriaethu'r agenda rhyddhau ar draws y Tîm Amlddisgyblaethol, gyda chefnogaeth yr arweinydd Strategol ar gyfer rhyddhau a'r uwch-nyrs. Mae'r risg mewn cysylltiad â diffyg cydymffurfio â'r fframwaith rhyddhau yn cael ei werthuso a'i drafod ar lefel adrannol a chorfforaethol drwy gyfarfodydd lleol a	Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	byrddau integredig a bydd yn cyfrannu at y ffrydiau gwaith rhyddhau		
Gwreiddio model Asesydd Dibynadwy A6 Dylai'r Bwrdd lechyd wreiddio ei ddull model Asesydd Dibynadwy a chyfleu'r dull hwn i'r holl bartneriaid. Er bod cydnabyddiaeth efallai na fydd hyn yn helpu i sicrhau pecynnau gofal neu leoliadau yn gyflymach; bydd yn sicrhau bod y capasiti i asesu cleifion pan fo angen.	Mae'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd lechyd wedi cynnal adolygiad o gyfleoedd i wreiddio model Asesydd Dibynadwy o'i gymharu ag arferion gorau cenedlaethol a setiau data lleol ar gyfer Oedi yn Achos Llwybrau Gofal sy'n gysylltiedig â chodau asesu. Cyflwynwyd tri maes a argymhellir i'r Bwrdd Rhyddhau Integredig eu datblygu <u>Drws ffrynt integredig</u> Gwreiddio sgysiau o safon sy'n hybu rheoli risg yn gadarnhaol drwy gynllun hyfforddi Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau a baratowyd gyda'r garfan gyntaf yn targedu'r tîm Drws Blaen Integredig; trefnwyd 2 garfan	Parhaus	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	ar gyfer mis Chwefror 2025 ar gyfer hyd at 60 o leodd <u>Cyfleoedd system ehangach</u> Cynhaliwyd adolygiad oediadau cod asesu o setiau data Oedi yn Achos Llwybrau Gofal, y meysydd uchaf a nodwyd. - Gwreiddio model offeryn cymorth penderfyniadau yn y gymuned nid yn yr ysbyty er mwyn lleihau oediadau ‘asesu ar y cyd’; lleihaodd ffigurau mis Rhagfyr yn sylweddol yn dilyn pwyslais ar hyn - Gweithio gyda chartrefi gofal i weithredu model ‘asesydd dibynadwy’ ar gyfer rhyddhau cleifion pan fo swydd wag, yn hytrach nag aros am ymweliad Sefydlu ffrydiau prosiect er mwyn gweithredu’r gwaith a nodwyd: - Drws ffrynt integredig, gan ddod â model asesydd dibynadwy - Hwyluso rhyddhau’n gynnar, gan symud offeryn cymorth penderfyniadau i’r gymuned nid fel claf mewnol		

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	• Cartrefi Gofal yn derbyn asesiad nyrsio ac nad oes angen cynnal ymweliad i adolygu claf		
Gwella'r broses o oruchwylio polisïau a chanllawiau A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd fonitro'r gydymffurfiaeth â'i bolisi rhyddhau cleifion er mwyn asesu effeithiolrwydd a chysondeb yr hyn a gymhwysir, ac a yw'r canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys cadw at ei bolisi ei hun y bydd rhaglen dysgu blynyddol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion.	Bydd data a gesglir trwy ffrydiau gwaith rhyddhau, hyd arhosiad CWS2, ac Oedi yn Achos Llwybrau Gofal yn ffurfio conglfaen ar gyfer gwella canllawiau, llunio'r rhaglen addysgol a chanolbwyntio adnoddau er mwyn gwella a gwerthuso canlyniadau Datblygu CWS2 ymhellach er mwyn disodli'r Rhestr Gymhleth Mae dangosfwrdd ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i adrodd i'r Bwrdd Rhyddhau Integredig Dysg a sylwadau i'w cyflwyno mewn fforymau lleol a byrddau integredig a'r pwyllgor canlyniadau Ansawdd cleifion	Y 12 mis nesaf	Cyfarwyddwr Digidol Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Gwella ansawdd a rhannu gwybodaeth			

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A8 Dylai'r Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol roi ffyrdd o rannu gwybodaeth cleifion yn fwy effeithiol ar waith, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad ehangach i systemau sefydliadol ac, yn y pen draw, atebion TG ar y cyd.	Mae Awdurdodau Lleol yn y broses o ddisodli'r cofnod cleientiaid TG presennol (WCCIS) dros y 18 mis nesaf. Mae potensial gyda system newydd y bydd yn cysylltu â system y Bwrdd lechyd dros amser. Mae prosesau ar waith i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau, ond nid yw hyn yn gyfystyr ag ateb TG ar y cyd	Y 18 Mis Nesaf	Cyfarwyddwr Digidol/Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Penaethiaid Gwasanaeth Awdurdod Lleol
A9 Dylai'r Bwrdd lechyd wella'r drefn cadw cofnodion drwy: 9.1. sicrhau bod yr holl staff sy'n rhan o'r broses cynllunio i ryddhau cleifion yn deall yn llwyr bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. 9.2. sefydlu rhaglen archwilio nodiadau achos sy'n canolbwyntio ar ansawdd y cofnodion a gedwir.	Mae'r Bwrdd lechyd yn bwrw ymlaen â'r broses o gwmpasu ateb TG i uno'r Rhestr Gymhleth â CWS2, gan rannu data ar draws Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi dadansoddiad data ystyrlon ac amser real Archwiliadau Misol: Mae staff ward yn cynnal archwiliadau dogfennaeth nyrsio misol er mwyn asesu safon a manylion yr wybodaeth a gofnodir mewn cofnodion cleifion. Mae hyn yn cynnwys dogfennau Derbyn, Asesiadau Risg, Cofnodion Gofal, a dogfennau Rhyddhau	Y flaenoriaeth ar gyfer 2025/2026 Archwiliadau Misol	

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Rhaglen Achredu Wardiau: Cynhwysir cwblhad a manylion yr wybodaeth a gofnodir ar y dogfennau hyn yn y rhaglen Achredu Wardiau, sy'n sicrhau bod staff yn ymwybodol o bwysigrwydd dogfennaeth gynhwysfawr Rhaglen Cofnod Gofal Nyrsio Cymru Electronig: Mae dogfennaeth Cynllunio i Ryddhau ar gael ar y rhaglen Cofnod Gofal Nyrsio Cymru electronig, sy'n hwyluso gwell mynediad a dealltwriaeth o bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr. Canlyniadau Archwilio: Mae archwiliadau diweddar wedi dangos lle i wella wrth ddogfennu dyddiadau rhyddhau amcangyfrifedig a chynllunio i ryddhau. Er enghraifft, 76.6% oedd dogfennu cynllunio i ryddhau mewn nodiadau meddygol a nyrsio/Cipolwg ar Statws Cleifion oedd ym mis Hydref, 82.7% ym mis Tachwedd, a 77.3% ym mis Rhagfyr Adolygiad Cofnodion Meddygol: Canfu adolygiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 mai dim ond 19% o ddogfennau Cynllunio i Ryddhau a gwblhawyd, gan nodi bod	Ionawr 2024 Parhaus	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pennaeth Cofnodion Iechyd/Atgyfeirio ac Archebu Dirprwy Bennaeth Cofnodion Iechyd—DHR Cyfarwyddwr Meddygol / Y Tîm Archwilio Clinigol—Corfforaethol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	angen archwiliadau mwy trylwyr a chamau dilynol Mae archwiliadau nodiadau achos yn rhan o'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae cofnodion meddygol yn archwilio'r nodiadau, fel y gwna'r tîm archwilio Ansawdd a Diogelwch Cleifion Corfforaethol er mwyn edrych ar safonau cadw cofnodion Rhaglen Archwilio Nodiadau Achos: Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen strwythuredig gyda'r nod o asesu a gwella ansawdd cadw cofnodion. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar gydymffurfio â safonau sefydledig, gwella diogelwch cleifion, a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau perthnasol. Cynhaliwyd yr archwiliad hwn a bydd yn cael ei gyflwyno yn y Grŵp Safonau ac Effeithiolrwydd Clinigol Rhaglen Archwilio cofnodion meddygol: Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio nodiadau achos yn rheolaidd. Mae gwiriadau cydymffurfio yn cynnwys y meini prawf archwilio a ganlyn: inc du, dyddiadau, darllenadwyaeth, llofnodion	Archwiliadau misol parhaus	Cyfarwyddwr Meddygol / Y Tîm Archwilio Clinigol—Corfforaethol

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	ac amseroedd. Y gydymffurfiaeth bresennol ar gyfer cleifion allanol yn yr archwiliad hwn yw 68% a dogfennau cleifion mewnol yw 95% Trwy ganolbwyntio ar y meysydd hyn, gall y Bwrdd lechyd sicrhau bod staff yn deall pwysigrwydd dogfennu cynhwysfawr ac yn sefydlu rhaglen archwilio gadarn er mwyn cynnal cofnodion o ansawdd uchel Disgwylir i ganlyniadau y canfyddiadau archwilio fod yn sylwadau yn y Grŵp Safonau ac Effeithiolrwydd Clinigol. Bydd canlyniadau yr archwiliad yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynlluniau gweithredu wedi eu targedu a mynd i'r afael â diffygion penodol. Bydd argymhellion gan y Grŵp yn cael eu cyflwyno yn y Fforwm Dysgu a Gwella. Bydd dysgu o'r arferion cyfredol a'r canlyniadau archwilio yn gwella prosesau cadw cofnodion y Bwrdd lechyd Mae archwiliadau rheolaidd wedi eu trefnu ar gyfer 2025/26 a byddant yn helpu i nodi bylchau mewn cadw	Ebrill 2025	

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	cofnodion ac yn darparu cyfleoedd i wella'n barhaus Bydd sylwadau a chymau gweithredu uniongyrchol ynghylch gwella yn cael eu trosglwyddo i arweinwyr gwasanaethau. Mae hyn yn Cefnogi dysgu o'r arferion cyfredol a gall y Bwrdd lechyd wella'r ansawdd cadw cofnodion, gan sicrhau gwell gofal i gleifion a chydymffurfiaeth â safonau		
Sylwadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r staff A10 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ganddo ddulliau ar waith i ddeall profiadau cleifion a gofalmwyr yn y broses o ryddhau cleifion, yn unol â'i bolisi presennol a chymhwyso dysg.	Mae sylwadau profiad cleifion yn cael eu casglu yn y Bwrdd lechyd ar CIVICA Experience Platform. Mae'r system hon ar draws pob ward cleifion mewnol a nifer o feysydd eraill e.e., Adran Achosion Brys, Uned Mân Anafiadau, Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, Uned Meddygol Aciwt, ac ati. Mae'r holl sylwadau a gesglir yn cael eu gweld gan y ward a'r Gyfarwyddiaeth a'r Is-adran ehangach, felly gellid gweld unrhyw sylwadau ynghylch rhyddhau (o gwestiynau agored mewn arolygon), fodd bynnag, nid oes cwestiwn penodol ynghylch 'Rhyddhau'.	Parhaus	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A11 Dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod timau gwasanaethau cymdeithasol perthnasol yn cipio profiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fel mater o drefn ac yn cymhwyso dysg.	Hefyd, mae'r system yn dadansoddi'r holl sylwadau a gesglir ac yn eu rhoi mewn themâu er mwyn deall tueddiadau. Mae un thema wedi ei neilltuo ar gyfer 'Llwybr Cleifion' gydag is-thema ynghylch 'Rhyddhau'. Mae hyn yn caniatáu dadansoddiad penodol o brofiad ar y pwnc hwn a dealltwriaeth o ble mae'r sylwadau wedi eu cofnodi os oes unrhyw glaf neu berthynas wedi cyfeirio at unrhyw beth penodol ynghylch rhyddhau cleifion Mae Awdurdodau Lleol yn gofyn am sylwadau yn rheolaidd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Gall hyn fod yn fwy heriol o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty ond mae'n faes i'w wella. Mae holiadur blynyddol y cyfrifiad ac amrywiaeth o ddulliau/holiaduron sylwadau mewnol gan gynnwys cwynion a chanmolïaethau. Adroddiad blynyddol ynghylch cwynion a chanmolïaethau	Parhaus	Penaethiaid Gwasanaeth Awdurdod Lleol



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.